tafod elái

Mehefin 2020

Rhif 348

Eisteddfod T yn codi hwyl

Oherwydd fod Eisteddfod yr Urdd 2020 wedi ei ohirio daeth y syniad o gynnal Eisteddfod ar y we. Ac yn lle cael ein croesawu i faes yr Eisteddfod cawsom ein croesawu i dai miloedd o gystadleuwyr brwd a difyr.

Daeth llwyddiant i'r ardal hon gyda pherfformiadau arbennig yn y cystadleuthau traddodiadol a newydd.

Llongyfarchiadau i bawb gymerodd rhan ac i'r Urdd am drefnu gŵyl liwgar i ddathlu talentau o bob math.

Dawns Ystafell Fyw - 3ydd Lili a Gavin Howard. Ysgol Garth Olwg

Her Chwaraeon Rhys Patchell - 2il Jac Lockett. Ysgol Llanhari

Her Chwaraeon Elinor Snowsill - 1af Jac Lockett. Ysgol Llanhari

Llefaru Bl.4-6 (D) 3ydd - Hannah Bartholomew Ysgol Gynradd Creigiau

Dynwarediad - 3ydd Ifan Roberts Ysgol Llanhari

Monolog neu Ymgom Bl.7 a dan 19 oed - 1af Greta, Mali a Tom Ysgol Garth Olwg

Dawns Werin Bl.7-25 oed - 1af Daniel Calan Jones Adran Bro Taf

Dawns Werin dan 25 oed - 2il Daniel a Morus Adran Bro Taf

Her Chwaraeon Connagh Howard - 3ydd Mali Begw a Nel

Ifan Roberts yn dynwared Rhys Meirion

Ymgom buddugol gwallgo
Greta, Mali a Tom

Jac Lockett yn sgwrsio gyda Trystan a Heledd yn dilyn ei lwyddiant yn yr Her Chwaraeon

Tafod Elái ar y Wê

Mae'r rhifyn yma yn cael ei ddosbarthu drwy ebost. Rhannwch gyda'ch ffrindiau. Danfonwch ymlaen i unrhyw un sy'n gallu, neu dysgu, siarad Cymraeg. Danfonwch ymlaen i holl aelodau eich cymdeithasau. Danfonwch i unrhyw le yn y byd!

Ennill Cystadleuaeth i Ddysgwyr

Llongyfarchiadau enfawr i Siân Sexton sy'n byw yng Nghreigiau ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu Merched y Wawr i ddysgwyr lefel uwch eleni. Roedd y gystadleuaeth yn agored i bob dysgwr ond fel mae'n digwydd mae Siân yn aelod ffyddlon o gangen Tonysguboriau o Ferched y Wawr. 'Ein Dyfydol' oedd y testun gosod a diolch i Siân am adael i ni ddarllen am ei gweledigaeth fuddugol. Cewch ei darllen ar dudalen 2.

Tarian Cymru

Cefnogwch yr ymgyrch codi arian i roi offer gwarchodol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru

https://www.gofundme.com/f/tariancymru

Garth yr Arth

Go brin fod yna'r un enaid byw yn y Gymru Gymraeg na chlywodd sôn am Garth yr Arth adeg Eisteddfod Taf Elái 1991.Yn wir, a barnu ar y mynydd o nwyddau a werthwyd mewn gwahanol eisteddfodau ac amryfal weithgareddau eraill, mae lle cryf i gredu fod bron pob copa walltog o blant y genedl yn berchen ar ryw eitem neu'i gilydd gyda llun Garth arno.

Ar lethrau'r Garth y mae cartref yr anifail bach, a dyma lle y bu ers degawdau yn gwarchod Cymreigrwydd ardal yr Eisteddfod. Yn ystod cyfnod Nadolig 1990 fe ymddangosodd Garth i dros 10,000 o blant mewn gwahanol ysgolion cynradd ym Morgannwg Ganol wrth i Dyfrig Morgan, trefnydd yr Urdd yn y Sir ei dywys o le i le i berfformio sioe hynod lwyddiannus o waith Loreen a Carey Williams.

Garth yr Arth yng Ngorymdaith y Cyhoeddi, Tonyrefail

Ennill Cystadleuaeth i Ddysgwyr
(o tudalen 1)

Dyma weledigaeth Sian Sexton ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu Merched y Wawr i ddysgwyr lefel uwch eleni. 'Ein Dyfydol' oedd y testun gosod a diolch i Siân am adael i ni ddarllen am ei gweledigaeth fuddugol:

Ein dyfodol

Sut basai fe tasen ni'n gallu gweld y dyfodol?

Dros y canrifoedd, mae llawer o bobl wedi dweud eu bod nhw'n gallu rhagweld y dyfodol, a hyd yn oed yn yr oes wyddonol hon, mae pobl sy'n honni galluoedd seicig ac yn cael eu talu i ddarogan digwyddiadau bywyd.

Tasen ni'n gwybod y dyfodol, heb y gallu i newid pethau, basai hynny yn rhywbeth ofnus iawn, mae'n ymddangos i fi. Yn y ffilm 'The Dead Zone' !1984), mae Christopher Walken yn chwarae dyn ifanc sy wedi cael anaf i'w ben mewn damwain car. Mae hyn yn ei adael gyda'r gallu i ragweld digwyddiadau trychinebus. Mae ei anallu i atal y digwyddiadau hyn yn ei wneud yn drallodus, ac mae e'n mynd yn ddigalon ac yn unig. Ei weledigaeth fwyaf dychrynllyd yw llun o arlywydd Americanaidd anystyriol yn gwasgu'r botwm i ddechrau rhyfel niwclear. Ffuglen ydy hon, cofia! Mae e'n ymyrryd gan saethu'r Arlywydd yn gwybod y bydd e'n cael ei ladd gan y 'Secret Service'. Wrth wneud hyn, mae e'n gallu newid y dyfodol.

Yn ffodus, does dim angen ar y rhan fwyaf ohonon ni i ddelio gyda phroblemau o'r un fath ond, diolch i wyddoniaeth yn hytrach na galluoedd arbennig, rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n wynebu heriau eraill yn y dyfodol. Y newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deffro i'r bygythiad, ond y cwestiwn yw, beth mae pawb yn mynd i'w wneud amdano fe? Fel unigolion, y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid yw rhoi pwysau ar ein gwleidyddion. Rydyn ni'n gallu gwneud pethau bach, ond rhaid bod arweinyddiaeth a buddsoddiad gan y llywodraeth i gwrdd â'r her yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd, ac wedi gosod targed o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o 95% erbyn 2050. Wrth gwrs, nid yw mynegi pryder a gosod targedau yn ddigonol – rhaid bod gweithred hefyd. Mae'r Ddeddf (Cymru) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn unigryw i Gymru ac yn cynnig cyfle gwych i wneud newid hirdymor, positif ar gyfer y dyfodol. Prif nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau dyfodol cynaliadwy sy'n cynnwys gofalu am ein hamgylchedd.

Felly, sut bydd bywyd yng Nghymru yn y dyfodol os gwnawn y penderfyniadau cywir nawr?? Rydyn ni'n gwybod y gallai Cymru arwain y ffordd mewn egni adnewyddadwy achos ein daearyddiaeth a'n hadnoddau naturiol. Hefyd, mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd cerdded a seiclo, plannu coed, helpu cynlluniau ynni gwyrdd, datblygu tai ac adeiladau carbon isel, gwneud newidiadau mewn amaethyddiaeth sy'n cefnogi ffermwyr i addasu, cynyddu defnydd o gerbydau trydan ac yn cwtogi gwastraff.

Bydd hynny'n helpu i wneud ein heconomi'n gynaliadwy a chreu swyddi da i'n cymunedau.

Felly, mae cyfle gyda ni i newid y dyfodol er lles ein plant a'r blaned, ond rhaid bod gweithred nawr. Felly dylai pawb ddefnyddio eu pŵer yn y blwch pleidleisio, a thrwy weithred fel cefnogi siopau lleol, ailgylchu ac yn y blaen. Mae ein plant a'n wyrion yn haeddu hynny.

Cofio Cen Cartŵn

Ym mis Mai bu farw'r cartwnydd amryddawn Cen Williams a gynlluniodd Garth yr Arth. Derbyniodd gomisiwn gan y pwyllgor cyhoeddusrwydd i greu cymeriad a fyddai'n addas i werthu'r Eisteddfod, a derbyniodd yr her yn llawen, ac yn ddi-dâl. Ef hefyd oedd tad Byrti Bws a bu'n gartwnydd i'r cylchgrawn Golwg ac yn gyfaill i nifer yn yr ardal.

Taffi a Chonffeti'r Ffair, sioe Eisteddfod Taf Elái 1991

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Taf Elai 1991

Syndod o'r mwyaf ond braint enfawr oedd derbyn gwahoddiad i fod yn Llywydd yr Ŵyl yn Eisteddfod yr Urdd, Taf Elai yn 1991. Doeddwn i ddim yn byw yn yr ardal ar y pryd ond symudodd Danny a finnau yma i Donyrefail yn hwyrach y flwyddyn honno, ym mis Tachwedd 1991. O'r herwydd, doeddwn i ddim yn rhan o'r ymdrech fawr i godi arian, codi ymwybyddiaeth a gwneud yr holl baratoadau ymarferol. Dim ond troi i fyny a mwynhau...

Felly, beth sy'n aros yn y cof? Roedd hi'n sicr yn wythnos braf, tan y diwrnod olaf beth bynnag, a'r parc lliwgar yn edrych yn ddeniadol iawn. Dau beth sy'n aros yn y cof: Daniel Evans yn codi yn y Pafiliwn fel enillydd Y Gadair, a'r sioe gerdd 'Taffi a Chonffeti Ffair' – llwyfan llawn bwrlwm a llawenydd. Dw i'n meddwl bod y crys T yn dal yn y drâr lan llofft.

Dw i hefyd yn cofio llu o bobl leol yn gwirfoddoli – y rhan fwyaf ohonyn nhw yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg am y tro cyntaf. Nhw oedd arwyr y meysydd parcio ben bore.

Ond y prif beth oedd gweld yr ysgol lle ces i'r cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn dod yn ganolbwynt y Gymraeg i ieuenctid Cymru am wythnos. Diolch i'r holl bobl a weithiodd mor galed i wneud hynny'n bosib. Ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol nesaf!

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Dawn Walters

Dathliadau Diwrnod VE
Hyfryd oedd gweld y strydoedd yn llawn baneri lliwgar a dathliadau di ri. Da iawn Ricky Williams o hewl Coronation llwyddodd codi dros £1000 i roi i Ysgol Heronsbridge, Penybont ble mae ei ferch Tally yn ddisgybl.

Newyddion Trist
Ar Fai 22 yn dawel yn ei chwsg bu farw Phyllis Williams o Dan y Bryn. Bu Phyllis yn dioddef o'r salwch COPD ers rhai blynyddoedd ac yn ei gwely oedd hi am y flwyddyn ddiwethaf gyda gofal arbennig gan ei theulu yn enwedig ei hwyres Tara. Mae cydymdeimladau wedi dod o mor bell i ffwrdd â Ffrainc. Roedd tîm pêl droed y pentref (Spartans) yn mynd ar deithiau cyfnewid bob yn ail flwyddyn i Ffrainc ac roedd Phyllis yn mynychu'r rhain ac wedi gwneud nifer o ffrindiau. Roedd Phyllis yn dwli ar y grŵp roc Staus Quo ac wedi mynd i'r gigs hyd yn oed pan oedd hi yn ei saithdegau. Bu Phyllis yn aelod ffyddlon o Gymdeithas Hanes y pentref ac yn aelod o'r côr menywod. Roedd hi'n ffrind i bawb ac mae'r pentref yn mynd i weld ei heisiau hi. Cydymdeimlwn gyda'r teulu.

Llwybr Tylwyth Teg
Mae plant y pentref wedi bod yn brysur yn addurno ardal awyr agored coedwigog pen y pentref a enwir nawr yn Llwybr Tylwyth Teg. Mae'r lle yn hyfryd i weld ac mae ymdrechion y plant wedi bod yn anhygoel.

Rhoi clod i athro Cymraeg

Yn rhaglen S4C 'Iaith ar Daith' roedd Ruth Jones wedi crwydro o Aberaeron i Bontypridd gyda Gillian Elisa Thomas. Roedd y daith yn dod i ben yn y dref lle magwyd hi, Porthcawl. Meddai Ruth "Roedd athro Cymraeg ffantastig, Colin Williams, ac roedd 'enthusiasm' a 'passion' gyda fe am yr iaith. Roedd y gwersi yn lot o sbort."

Cychwynnodd Ruth ei gyrfa actio ym Mhafiliwn y Grand yn perfformio yn sioeau Ysgol Gyfun Porthcawl. A tra'n hel atgofion yno daeth Colin yn ôl i gwrdd a Ruth unwaith eto i hel atgofionn am y gwersi Cymraeg, yr Eisteddfodau a'r perfformiadau mewn sioeau.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Eisteddfod T
Longyfarchiadau gwresog i'r efeilliaid Tom a Greta Hill Williams, Tŷ Cerrig, Heol y Ffynnon, a'i ffrind Mali ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth yr Ymgom yn EisteddfodT yr Urdd.

Dathlu ym Mharc Nant Celyn
Llongyfarchiadau i Gwion Evans, Parc Nant Celyn ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Mai.

Cyfnod y Cloi Lawr
Wel am gyfnod anarferol! Mae'n bywydau ni'n dau wedi bod yn wahanol ers dechrau'r *Lockdown*. Rydyn ni yn neud pethau na fydden ni wedi 'neud cyn y cyfnod yma.

Un newid mawr yw ein bod ni yn cael addysg o adref ar hyn o bryd. Mae'r athrawon yn gosod tasgau i ni wneud ac rydyn ni yn dueddol o orffen ysgol amser cinio. Yna yn y prynhawn rydyn ni yn mynd am dro. Rydyn ni wedi ffeindio gymaint o lwybrau newydd na ffeindio'n ni erioed o'r blaen. Rydyn ni hyd yn oed wedi trio herio'n hunain i fynd i fyny Mynydd y Garth bob wythnos ers y dechrau ond braidd byth yn cyrraedd y top!

Ers dechrau *Lockdown* rydyn ni yn teimlo fel bod ni wedi sylwi ar fwy o fyd natur. Rydyn ni wedi dysgu sut i dyfu blodau a llysiau. Rydyn ni yn tyfu llawer iawn o foron, cennin, betys, ciwcymbr, mefus a llawer mwy. Ers hyn ma' Elis wedi bod yn neud llawer o gelf. Mae e'n hoffi tynnu lluniau o'r adar rydyn ni yn gallu gweld yn ffenestr y gegin (ond wrth gwrs dydy'r rhai ysglyfaethus ddim yn ymweld â ni!).

Bob nos Iau rydyn ni yn clapio i'r NHS ac ar ein stryd ni rydyn ni hefyd yn canu. Mae Dad ac Elis yn chwarae'r gitâr ac rydw i yn chwarae'r tambwrîn ac rydyn ni yn cael sing song. Hefyd rydyn ni yn cael amser i gael sgwrs fach gyda'n cymdogion gan gadw pellter!

Rywbeth sydd yn anodd iawn i ymdopi gydag yw bod ni methu gweld ein teulu na ffrindiau. Rydyn ni yn fythol mynd ar Zoom gyda'n teulu a'n ffrindiau a bob dydd Sadwrn rydyn ni yn cael cwis Zoom gyda'n cefndryd. Hefyd os ma' hi'n ben-blwydd ar rywun rydyn ni yn cael parti iddyn nhw ar Zoom!

Rydyn ni yn mwynhau'r cyfnod yma ond bydd e yn neis pan da ni yn gallu mynd yn nol i normality.

Cadwch yn saff

Mari Gwen Roberts – Blwyddyn 6
Elis Ioan Roberts – Blwyddyn 3

Her ffitrwydd i adfer y neuadd
Mae trigolion Efail Isaf wedi bod wrthi'n brysur yn ddiweddar yn gwneud heriau ffitrwydd ac ymarfer corff er mwyn codi arian i adfer ychydig ar Neuadd y Pentref. Ers ei adeiladu yn y 60'au mae'r neuadd wedi bod yn gartref i nifer fawr o weithgareddau Cymraeg yr adrdal. Mae'n leoliad ymarfer i Gôr Godre'r Garth ers blynyddoedd lawer, yn gartref i Ysgol Sul y Tabernacl ac yn leoliad i lu o wiethgareddau cymdeithasol. Er mwyn cynnal yr adeilad i'r dyfodol bu'r pentrefwyr wrthi'n gwneud gwahanol heriau ffitrwydd er mwyn codi arian i atgyweirio'r adeilad-ymhlith y gweithgareddau oedd rhedeg, beicio, cerdded a hyd yn oed ymdrech i drwsio beics. Codwyd dros £1500 - diolch i ymdrechion pawb. (Lluniau tudalen 5)

Cwis y Tabernacl
Dros yr wythnosau diwethaf mae bobl wedi bod yn greadigol iawn wrth gynnal y syniad o gymuned. Mae aelodau Capel y Tabernacl wedi datblygu'r arfer o gynnal cwis bob nos Wener ar Zoom ac mae'r digwyddiad yn mynd o nerth i nerth gyda chriw mawr yn cystadlu yn wythnosol. Os hoffech chi ymuno a'r cwis beth am ymuno gyda ni ar Zoom. Mae'r manylion ymuno ar dudalen Facebook Capel y Tabernacl.

Y TABERNACL
Bore Sul
Gyda drysau'r Tabernacl yn dal ar gau bydd cyfle i'r aelodau gyd-addoli yn ddigidol drwy ddilyn Gwefan a Facebook y capel bob bore Sul. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Eirian Rees, Emlyn Davies ac aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyfrannu. Fore Sul, Mai 17eg, cafwyd cyfle i weld ffilm gyda Heulyn a Catrin Rees a'r Twmiaid, a chafwyd cân a stori gan Bethan a Huw M. Roberts.

Gwarchod y dyfodol a gwerthfawrogi'r pethau bychain o'n cwmpas oedd thema'r ffilm, a gynhyrchwyd gan y Twmiaid. Soniwyd am y trychinebau erchyll allai daro gwledydd ar draws y byd, os na fydd ein cenhedlaeth ni yn newid ein ffordd o fyw. Pan baratowyd y ffilm ym mis Ionawr wyddai neb beth oedd yn ein haros wrth i ni gael ein caethiwo yn sgil y feirws melltigedig yma. Neges amserol iawn! Mae'n debyg y gallwch ymuno mewn Cwis ar nos Wener gyda Heulyn a Tomos Morse a chael digon o hwyl.

Cymorth Cristnogol
Fel un o'r rhai fu'n gwisgo bathodyn "Casglwr" ac yn cario bag coch Cymorth Cristnogol o ddrws i ddrws o amgylch y pentref am flynyddoedd lawer, roedd yn rhyfedd iawn eleni i orfod aros "dan glo" yn y tŷ. Do, bu'n rhaid newid y dull o gyfrannu oherwydd yr argyfwng presennol. Penderfyniad Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol y Tabernacl eleni oedd cynnal casgliad ymhlith yr aelodau gan roi cyfle i anfon siec i Arwyn Lloyd Jones ein trysorydd prysur.

Cofio Jane Eryl
Cynhaliwyd angladd Jane Eryl Jones ganol dydd ddydd Mercher, Mai 13eg. Roedd Jane Eryl yn Uwch Nyrs yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon cyn symud lawr i'r ardal hon ar ôl ymddeol. Roedd yr angladd yn hollol breifat ond ceir cyfle i gyfrannu at y Groes Goch er cof annwyl am Jane Eryl. Mae Gari a Siân a'r teulu yn ddiolchgar iawn am y llu o negeseuon teimladwy a dderbyniwyd gan ffrindiau. Gobeithio y cawn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr Jane Eryl i'r Tabernacl rhywbryd yn y dyfodol.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Ail-agor y Parc
Mae'n braf gweld fod Parc Ynysangharad wedi ail-agor yn dilyn difrod llifogydd mis Chwefror. Bydd cryn amser eto cyn i'r Lido agor.

Prosiect Pum Mil
Bydd Prosiect Pum Mil yn dod i Glwb y Bont pan fydd y cyfyngiadau yn lleihau i helpu rhoi gwedd newydd i'r Clwb a rhoi hwb i'r dyfodol.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Criw Efail Isaf yn cefnogi Neuadd y Pentref



Helo!
Mae staff yr ysgol eisiau dweud 'helo' wrth holl blant a theuluoedd PSN. Gobeithio bo pawb yn cadw'n iawn. Cofiwch ffonio'r ysgol neu ebostio'r athrawon os oes angen. Edrychwch ar Twitter @PsnYsgol a'r wefan psn.cymru ar gyfer unrhyw newyddion. Gobeithiwn eich gweld cyn bo hir!

Dydd Ewyllys Da
Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at neges ewyllys da yr ysgol. Cofiwch edrych ar ôl eich gilydd.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Ceisio Canfod Brechlyn
Dros yr wythnosau diwetha dan gysgod y gofid mawr mae Dr Emma Thomas-Jones, Llys Gwynno wedi bod yn gweithio'n ddygn fel rhan o dîm Canolfan Treialon, Prifysgol Caerdydd, sy'n ceisio canfod brechlyn llwyddiannus i wrthsefyll y firws peryglus coronavirus. Ei harbenigedd hi ydy gwaith ymchwil i heintiau bygythiol a rheoli prosiectau o'r math. Mae'n falch cael bod yn rhan o'r treial yma sy'n gywaith rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Da iawn Dr Emma! Ryn ni'n falch iawn ohonot! Ac yn falch o'r gwaith mae dy Ganolfan yn wneud!

Ymateb rhyfeddol i'r alwad am gyfranogwyr yn nhreial brechlyn COVID-19 Cymru
Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd y byddai Cymru'n chwarae rhan hanfodol mewn dod o hyd i ffordd allan o'r pandemig coronafeirws pan ddechreuwyd recriwtio ar gyfer treial brechlyn COVID-19 *Grŵp Brechlyn Rhydychen* .

Ddydd Llun 25 Mai, dechreuwyd sgrinio cyfranogwyr yn y garfan 18-55 oed, â'r nod o frechu 250 o gyfranogwyr sy'n byw yn ardal cod post Aneurin Bevan a rhai yn ardal cod post Caerdydd a'r Fro yr wythnos nesaf. Mae'r ymateb wedi bod yn aruthrol i'r alwad am gyfranogwyr, gyda mwy nag 800 wedi cofrestru a 200 wedi mynychu eu hymweliad sgrinio o fewn y pedwar diwrnod cyntaf (96.7% ohonyn nhw'n weithwyr gofal iechyd). Bydd sgrinio dwys yn parhau dros y diwrnodau sydd ar ddod.

Mae arbenigedd ac ymdrechion Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Ganolfan Ymchwil Treialon ar y cyd wedi sicrhau'r cyfle i Gymru gymryd rhan yn yr ymchwil hon, ac mae'r ymateb rhagorol o du cyfranogwyr yn hanfodol i lwyddiant yr astudiaeth. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r rheini sydd wedi rhoi o'u hamser i fynegi diddordeb ac ystyried cymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

Medd Dr Nicola Williams, Cyfarwyddwr Cefnogi a Chyflenwi, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru; "Mae gweld pawb yn cyd-dynnu i sefydlu a dechrau recriwtio cyfranogwyr mewn astudiaeth mor bwysig mewn amser hynod o fyr wedi bod yn aruthrol. Mae hyn wedi'i wneud diolch i'r staff diwyd ledled Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru; da iawn pawb ohonoch chi."

Gwirfoddolwyr glew y 'sgrybs'
Wedi apêl ar Facebook ar ddechrau'r cyfnod anodd yma fu bron â dod a'r byd i stop - cafodd Megan Clements - a'i Mam Nia, ymateb anhygoel! Ar draws de Cymru roedd yna gannoedd am fynd ati i greu PPE ar gyfer ein meddygon, nyrsys, gofalwyr iechyd - di-flino - mewn ysbytai a chartrefi gofal fel ei gilydd. Erbyn hyn mae yna rhyw 260 wrthi'n troi'r sgrybs yma allan fesul cannoedd! Maent o'r safon ucha ac yn cydymffurfio â gofynion yr WHO a'r Byrddau Iechyd. Er efallai nad yw'r sefyllfa mor argyfyngus ag yr oedd ar y cychwyn mae'r galw am y dillad yma yn dal yn uchel. Bob yn hyn a hyn bydd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn casglu cyflenwad ac yn eu cludo i'r ysbytai yn ôl yr angen. Diolch o galon i bawb sy wedi ymroi mor ddygn, mor frwdfrydig at y gwaith!

Hoffwn i chi fwynhau lluniau - jyst dau gan ddwy o'm gwirfoddolwyr i! Nikki Thomas sy'n arddangos un sgryb - a thros y misoedd mae Nikki wedi creu dros 180 o eitemau o PPE ar gyfer sefydliadau yn ardal Caerffili! Ac yn yr ail lun mae 'Dr Stuart Rose' neu Nyrs Mabli - dewiswch chi - yn modlo sgryb gan ei wraig grefftus Sandra.

Un arwr tawel arall
Mae Anthony Thomas yn un arall o'r gwirfoddolwyr tawel sy' wedi bod wrthi'n creu masgiau amddiffyn yn ei garej dros yr wythnosau diwetha ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Un arall o drigolion arwrol Llys Gwynno! Mae'n gwerthfawrogi cefnogaeth Creigiau 23 ac wedi creu bron i 200 ohonynt! Diolch Anthony!

Gwellhad buan
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau oll at Dave Robins. Wedi ymddeol mae Dave wedi profi cyfnod anodd iawn ond wedi goresgyn llawer ac wedi llwyddo i drechu hen afiechyd cas. Bu'n ddigon anffodus i gael anffawd yn gynnar yn y cyfnod *lockdown* yma - ond mae yn gwella. Yn cofio atat!

Garddwr Waunwyllt
Mae John Hughes mewn peryg o gael slot wythnosol ar **Prynhawn Da**! Hyfryd oedd ei weld yn rhannu mwy o gynghorion o'i ardd hyfryd ar Heol Pantygored yn ddiweddar. Os daliwch i wylio bydd yna fwy o gyfweliadau i ddod! Diolch John am gyngor doeth ac amserol! Mae rhagor o wybodaeth ar wefan garddiowaunwyllt.co.uk.

Pen-blwydd
Pen-blwydd hapus Anni Jones! Pump oed dydd Mawrth, Mehefin yr ail! Joia dy ddiwrnod!

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Pen-blwydd Hapus
Mae dwy o'r pentre, sef Shan Pickard ac Eleri Jones, wedi bod yn dathlu penblwyddi arbennig iawn yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt a gobeithio y daw cyfle i ddathlu mewn steil go iawn cyn hir.

Mrs. Eira Jones
Daeth y newyddion trist am farwolaeth Eira Jones, gweddw Henry'r cigydd a mam Vaughan. Bu'n wael ei hiechyd am flynyddoedd ac fe gafodd ofal arbennig gan Vaughan ar hyd yr amser. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Vaughan a'r teulu ar yr adeg hynod o anodd yma.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn gyda Margaret Roberts a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei hunig frawd, Hywel yn Llangennech.

Yn yr un modd cydymdeimlwn gyda Joy Glyn a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Huw ym Mryn Berian, Sir Benfro.

Bu'n gyfnod gofidus i'r teuluoedd a hwythau yn gorfod cadw pellter wrth eu hanwyliaid ar amser mor anodd a thrist.

Her Huw
Soniwyd am orchest Huw Llywelyn Davies ar y beic yn Tafod Elái mis dwetha' ond fel y dywed Huw, "Ma'r gronfa bellach o fewn llai na £10 at gyrraedd £4,000 rhwng y cyfraniade hael a'r rhodd cymorth - gift aid - £3990 97c i fod yn fanwl gywir. Dyna i gyd sy gyda fi i ddweud yw diolch o galon i bawb - ar fy rhan i, ac yn llawer pwysicach wrth gwrs ar ran Ysbyty Felindre. Ma'r ffigwr ymhell bell yn uwch nag yr oeddwn yn ei ddishgwl. Bu'r pedlo yn bendant yn werth chweil! A rhag ofn bo rhai ddim yn gallu deall yr arian mân yn y cyfanswm - fe ddaeth dau gyfraniad o dramor - un o Perth yn Awstralia ac un o Vancouver yn Canada - newid y doleri i sterling yw'r rheswm am y 97 ceiniog!!" Llongyfarchiadau gwresog iddo.

Ymgyrch y Clwb Rygbi
Rydyn ni'n ymfalchio yn y ffaith ein bod ni'n glwb i'r gymuned ac islaw mae rhestr o'r hyn yr ydyn ni wedi ei wneud i geisio helpu dros y misoedd diwetha.

Ym mis Chwefror fe ddiddefodd sawl pentre cyfagos yn ddirfawr yn sgil y llifogydd a effeithiodd ar Nantgarw a rhannau o Ffynnon Tâf dros nos ddydd Sadwrn a Sul Chwefror 15/16. Erbyn 11.00 ar y bore Sul roedd y clwb wedi ymateb i'r alwad am gymorth ac i fod yn ganolfan lle gellid dod â nwyddau angenrheidiol i'w gadael – bwyd, dillad, blancedi ac offer i'r ystafell ymolchi.

Codi Calon
Wrth fynd am dro drwy'r pentre braf oedd sylwi ar ymdrech gan rywrai i godi calon drwy osod her i baentio ac addurno gymaint â phosib o gerrig bach a'u gosod am bellter ar hyd y llwybr sy'n arwain o Ael y Bryn draw at Bronllwyn. Sgwn i beth fydd y nifer terfynol?

Rhagor o godi calon
Yn ogystal, mae casgliad hyfryd o gerrig wedi eu haddurno ar wal ffrynt Llygad yr Haul. Da iawn Efa ac mae mam wedi mwynhau hefyd.

Ynghyd ag eraill, fe hysbysodd y clwb yr aelodau, a thrigolion eraill yn y gymuned, am y datblygiadau hyn , ac erbyn 4.00 y prynhawn hwnnw roedd 6 fan dransit dan eu sang, yn llawn o'r llawr i'r to, wedi gadael y clwb i'w rhannu ymhlith y bobl anffodus oedd angen cymorth.

Yn fwy diweddar, rydyn ni i gyd wedi profi effaith y coronafeirws, â'r clwb wedi gorfod cau ei ddrysau ddydd Sadwrn, Mawrth 21 ain, yn unol â gorchymyn y llywodraeth. O fewn diwrnod neu ddau roedd chwaraewyr y timoedd 1af a'r ail, gyda help yr Ieuenctid, wedi gwirfoddoli i gynnig eu gwasanaeth i drigolion Pentyrch a'r cyffiniau – i wneud eu siopa, codi prescriptiwn, mynd ar unrhyw negeseuon, neu, yn syml, cynnal sgwrs. Hefyd fe hysbysodd Caplan y Clwb, Gerrit Banjes, ei fod e'n barod i roi cymorth personol o unrhyw fath i helpu unigolion o fewn y gymuned.

Ar ôl gwneud arolwg o'r bwyd, y diodydd ysgafn ac alcoholig mewn poteli a chaniau oedd yn dal gyda ni, penderfynodd y pwyllgor i gyfrannu popeth, ond am y diodydd alcoholig – yn gyfartal rhwng Ysbyty Morgannwg a Chartref Gofal cyfagos – Tŷ Hafod. Fe ddosbarthwyd y nwyddau dros benwythnos y Pasg â'u gwerth o gwmpas £700.

Am y diodydd alcoholig - gwerth tua £300, penderfynodd y pwyllgor gynnal raffl ar lein i'r aelodau a'r cyfeillion- £5 am gynnig – ac fe godwyd £500 o'r raffl – y ddau enillydd oedd Dai Llewelyn a Sue James. Cyflwynwyd £400 i Gronfa Elusen Caerdydd a'r Fro, a'r £100 arall i Gronfa "Money Pool" i anrhydeddu Donna Campbell. Roedd Donna yn nyrs yn Ysbyty Felindre ond bu farw ychydig ddyddiau cyn y Pasg gan adael mab 13 oed sy'n chwarae i un o dimoedd iau Clwb Rygbi Treganna .

Ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, mae gan Glwb Pentyrch nifer o aelodau a noddwyr sydd naill ai'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd neu'n cael eu hystyried yn "weithwyr allweddol". Sian Harries yw physiotherapydd y clwb, mae hi hefyd yn aelod o'r pwyllgor, ac wedi penderfynu gwirfoddoli mynd nôl i weithio i'r Gwasanaeth Iechyd, wedi ei lleoli yn Ysbyty Calon y Ddraig yn Stadiwm y Principality. Rydyn ni – fel clwb - yn falch iawn ohonyn nhw bob un, ac yn dweud "Diolch" anferth iddyn nhw i gyd am eu cyfraniad .

Rydyn ni'n mawr obeithio bod pob un ohonoch sy'n darllen y neges hon yn cadw'n iach a diogel. Os bydd haint COVID 19 yn parhau i gael effaith andwyol ar allu'r clwb i ail agor, falle bydd rhagor o stoc fydd yn rhaid ei symud ymlaen dros yr wythnose sydd i ddod. Os penderfynir cynnal raffl arall, a chyflwyno'r elw at achos da, yna ymunwch gyda ni, a chyfrannu at yr ymdrech. Cadwch lygad ar y datblygiadau diweddara ar wefan y clwb – pentyrchrugby.co.uk - neu ar y gwahanol wefannau cymdeithasol

Diolch am eich cefnogaeth. Huw

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

DADL Y SGON

Tybed faint ohonoch sydd wedi cael eich temtio i baratoi a choginio sgons dros yr wythnosau diwethaf? Mae'n amlwg eu bod yn boblogaidd gyda'r rhai sy'n cyfrannu i dudalen Gweplyfr MYW - *'Curo'r Corona'n Coginio'* ac mae'r canlyniadau yn amrywiol o ran siâp, gwead, maint ac apêl!

Tipyn o hanes y Sgon

Mae'r lle o'r enw Scone yn ddau bentref (Hen a Newydd) ym mhlwyf Perth a Kinross. Roedd yn safle i garreg enwog a ddefnyddiwyd ar gyfer coroni brenhinoedd yn yr Oesoedd Canol cyn i Edward Iaf symud y garreg i Abaty San Steffan ym 1296; fe'i dychwelwyd i'r Alban ym 1996 a'i gosod yng Nghastell Caeredin.

Term sy'n hollol Brydeinig yw 'sgon' am ystod o gacennau bach eitha plaen sy'n cael eu hansawdd trwy ddefnyddio pwdwr codi neu soda pobi gyda chynhwysyn asid fel llaeth sur neu laeth enwyn. Y diffiniad a roir yng Ngeiriadur Saesneg Rhydychen yw '*a soft flat cake of barley meal, oatmeal or flour, baked quickly and eaten buttered'*. Gair, yn ôl y geiriadur, sy'n tarddu o air Albanaidd neu'n gynharach hyd yn oed, o'r gair Iseldireg *schoonbrot* sef bara gwyn cain.

Mae'r sgon yn perthyn i'r 'Bannock' sy'n cael ei baratoi o geirch neu haidd, dŵr a llaeth enwyn, a hefyd y 'Singin' Hinnie' sy'n arbenigo o Northumberland; mae hon yn sgon fawr gyda chyrens, ond dim siwgr, sy'n cael ei rhannu'n lletemau ar ôl pobi.

Mae amrywiaeth o rysetiau ar gael ond yn gyffredinol defnyddir blawd codi neu flawd plaen a pwdwr codi, ychydig o siwgr a menyn, llaeth ac wyau. Roeddynt yn cael eu coginio yn y gorffennol ar y radell/planc (fel gwelir yn yr enghraifft yn '*Amser Bwyd'* Minwel Tibbot). Mae rhai yn ychwanegu syltanas neu gyrens neu baratoi rhai safori gyda chaws a pherlysiau sych. Yn ôl Alan Davies (*The Oxford Companion to Food*)

'This recipe, so simple and excellent, should not be messed around with'

Mewn erthygl yn y Guardian rhoddodd Felicity Cloake ei barn hi am eu paratoi. Ar ôl rhoi tro ar wneud sawl fersiwn gan gynnwys rhai Sophie Grigson (llaeth enwyn, blawd plaen a soda pobi) Rachel Allen (blawd plaen soda pobi a 'cream of tartar') a rhai Marcus Wareing (gydag wyau, blawd codi a pwdwr codi) mae hi'n dod i'r un casgliad ac Alan Davies gan nodi '*these cheffy blokes never know when to leave well alone'*.Mae hi hefyd yn trafod cyngor sy'n cael ei roi gan Dan Stevens (River Cottage) am beidio gorweithio'r toes a gan Delia Smith sy'n dweud am beidio rholio'r toes yn llai na 2.5 cm ac am beidio rhoi twist i'r torrwr wrth eu torri allan. I gloi mae Felicity yn argymell mai'r rysáit sydd yn llyfr coginio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r gorau, sy'n mynd â'r sgon yn ôl i'w tarddiad Albanaidd. Yma defnyddir blawd codi, lard a menyn gyda llaeth ac ychydig bach o siwgr; y toes yn cael ei rolio i drwchder 1.5cm a'i dorri gyda thorrwr 6cm, yna eu coginio am 15-20 munud cyn eu gweini'n gynnes gyda jam mafon cochion.

Dwi wedi dod o hyd i rysetiau sy'n defnyddio ychydig o sudd lemwn gyda'r llaeth (lle nad oes llaeth enwyn yn y rysáit) a fanila hefyd. Mae Paul Hollywood yn defnyddio blawd bara plaen, pwdwr codi, menyn meddal, wy a llaeth.

Wedi treulio amser yn ymchwilio ac yn arbrofi dyma fy nghynghorion:

- Peidio gorweithio'r tois
- Rhidyllu'r blawd a'r pwdwr codi/ soda codi gyda'u gilydd
- Defnyddio menyn yn syth o'r oergell
- Gwneud y tois ychydig yn wlyb
- Peidio taenu gormod o flawd ar y bwrdd wrth eu rholio allan
- Peidio rhoi twist i'r torrwr wrth eu torri'n siapiau
- Gwneud yn siŵr fod y ffwrn wedi cyrraedd y gwres cywir a'u pobi'n syth ar ôl eu paratoi
- Cynhesu'r hambwrdd pobi cyn rhoi'r sgons arno i goginio
- Ar ôl torri'r siapiau eu troi ben chwith i lawr wrth eu rhoi ar yr hambwrdd pobi
- Gadael digon o le rhyngddynt ar yr hambwrdd.
- Defnyddio rysáit sy'n cynnwys llaeth enwyn neu hufen sur er mwyn cael ansawdd meddal, briwsionllyd.

A beth am 'ddadl y sgon'?

Wel mae dwy:

Yn gyntaf – jam neu hufen gyntaf pan yn eu gweini? Roedd pobl Cernyw yn ddig iawn am hysbyseb gan Tŷ a Gerddi Lanlydrock yng Nghernyw ar gyfer tê prynhawn lle dangoswyd sgon gyda'r hufen gyntaf a'r jam ar ei dop, ac i wneu pethau'n waeth roedd syltanas ynddi. Sgon Dyfnaint yw'r un yn y llun!

Ac, yn ail yw sut i ynganu'r gair sgone - i odli gyda 'gone' (gyda phoblogrwydd o 42%,ac yn fwy tebygol yng Nogledd Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ôl un arolwg) neu gyda 'bone' (51% ac a ddefnyddir fwy yng nghanolbarth Lloegr a De Iwerddon)? Nodir, does dim sôn am Gymru yn yr arolwg!

Pa bynnag ffordd rydych chi'n eu gweini neu'n ynganu'r gair gobeithio gewch chi hwyl ar eu paratoi a'u bwyta, ac efallai cawn weld rhai o'r canlyniadau ar *Curo'r Corona'n Coginio.*

Pentyrch (parhad)

Cronfa Goffa Tom Maynard

Mae chwaraewyr y clwb rygbi wedi cynnal ymgyrch arall yn fwy diweddar i godi arian at elusen arall – Cronfa Goffa Tom Maynard – gŵr ifanc o'r pentre gollodd ei fywyd mewn damwain drasig yn Llunden rai blynyddoedd yn ôl. Roedd y bechgyn i fod i fynd ar daith i chware yn Toronto, Canada ddiwedd y mis. Yn amlwg fydd y daith honno ddim yn digwydd bellach – ac felly er mwyn codi arian penderfynodd y criw – rhyngddyn nhw – seiclo'r pellter o Bentyrch i Toronto – 3428 o filltiroedd mewn wythnos! Ond fe aethon nhw ymhell heibio'r targed hwnnw dros y penwthnos cynta – 4264 milltir! Gan eu bod nhw felly chwarter y ffordd tuag adre – y bwriad nawr yw seiclo nôl hefyd y pellter i Bentyrch cyn diwedd yr wythnos! Ac yn barod ar hyn o bryd – Dydd Sul Mai 10 fed – maen nhw wedi codi £1,776 at achos teilwng iawn. Enghraifft arall felly sut mae'r criw ifanc yma yn tynnu at ei gilydd mewn cyfnod anodd a rhyfedd.

Huw.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Ar Grwydr yn ystod y "Gofid Mawr"

A hithau bron yn ddiwedd mis Mai 'rydym ni yng Nghymru yn dal i ddisgwyl am fymryn o lacio yn y rheoliadau caeth y disgwylid i ni eu dilyn er cadw'r feirws, a fu'n ein plagio ers misoedd, rhag ein llethu.

Ymddengys nad oedd y rheoliadau yn Lloegr yn gymwys i'w dilyn gan bawb yn y wlad honno, a mynnai rhai mai yn "reddfol" (*instinctive*) y dylid ymateb!

A ninnau wedi cael y wefr o weld byd natur ar ei orau yn ystod y cyfnod meudwyo yma, yn sgil y tywydd ffafriol eithriadol, 'rydym wedi gwneud ein siâr o groesawu rhai i'n plith sydd, yn ôl eu patrwm blynyddol, wedi parhau a'u siwrna i wledydd Prydain boed "ofid" neu beidio.

Sôn yr ydw i wrth reswm am yr adar mudol rheini yr ydym mor hoff o'u gweld a'u clywed wedi iddynt dreulio'r gaeaf mewn gwledydd llawer cynhesach na gwlad fach ni.

Y nhw, wedi'r cyfan, sydd yn dynodi bod y rhod wedi troi a bod y gwanwyn a'r haf wedi cyrraedd ein glannau a'n dolydd.

Pwy nad yw'n hoff o weld y gwenoliaid yn chwipio hedfan o'n hamgylchyn ystod y dydd, yn bwydo ar yr adain, neu'n "*eistedd yn rhes*" flinedig ar y weiren deleffon honno?

A phwy mewn ddifrif nad sydd yn cael pleser o'r mwyaf os ydynt y gallu honni eu bod ymysg y rhai cyntaf i glywed deu -nod trwiadol y gwcw yn y coed, yn enwedig os oes na geiniog neu ddwy yn ein pocedi ar y pryd?

(Er ei bod yn rhan o gôr y wig am gyfnod, tybed faint o groeso a fyddai iddi mewn gwirionedd gan unrhyw gôr yn yr ardal gyfagos heb ddim ond dau nodyn yn unig i'w llais?)

Fe wyddem ei bod hi a'r wennol yn treulio'r gaeaf yn yr Affrig, rhywle i'r de o Anialwch y Sahara.

Ond tybed a wyddem fod cofnod diweddar o gog, o'r enw Onon, yn teithio dros 7500 o filltiroedd (12000 cilomedr) o ddeheudir yr Affrig i Fongolia - un o'r teithiau mudo pellaf yn hanes adar y tir.

Bu'n deunodi dros foroedd maith, a thir 16 o wledydd, ar y siwrna epig yma, a gofnodwyd trwy gymorth lloeren, ar gyfartaledd cyflymdra o 60 km/awr ar ei thaith.

Ac yn ôl y gwyddonwyr sy'n astudio'r ader mudo yma, mae cael aderyn sy'n teithio mor bell yn cynnig rhyw sicrwydd i ddynoliaeth fod yr hen fyd yma yn dal i droi!

O na fyddai'r haint, megis "Clychau'r Gôg" R. Williams Parry, yn "d*yfod pan ddêl y gwcw, myned pan êl y maent*"!

Ac mae "hedfan" a "lloeren" yn dod a ni'n daclus at ail ran y llith yma, gan fod Nasa, Asiantaeth Ofod Unol Daleithiau'r America, yn anfon dau ddyn i'r gofod (ar y 30ain o Fai os bydd yr amodau'n ffafriol) i dreulio amser yn yr Orsaf Ofod Rhyngwladol (yr "ISS") gan ddefnyddio math o dacsi cwmni preifat SpaceX i wneud hynny. [Yn draddodiadol yn "ras y gofod" yr UDA oedd yn berchen ar, ac yn gyrru'r cyfan i'r gofod hyd at 2011.]

Dyma ddechrau troi'r gofod agos ("*low earth*") yn faes chwarae'r farchnad rydd, a'r rhagdybiaeth ydi y bydd nifer o gwsmeriaid, gan gynnwys Nasa, am ddefnyddio'r gwasanaeth. [Mae'n fwriad i roi pobl yn ôl ar y lleuad erbyn 2024, a pharatoi yn y cyfamser ar gyfer glanio ar y blaned Mawrth erbyn 2033!]

Tybed a fydd enwau Doug Hurley and Bob Behnken yn rai cyfarwydd mewn cwis o hyn allan fel y ddau ofodwr cyntaf i gymryd "tacsi i'r tywyllwch"?

Ac enw'r ofodlong gyda llaw – Crew Dragon (Criw'r Ddraig tybed?).

A do, yn sgil y feirws sydd o'n cwmpas, bu rhaid i'r ddau ohonynt hwythau hefyd, a'r tîm sydd â gofal amdanynt, fod yn hynod o ofalus nad oeddent yn rhannu'r haint tu hwnt i ffiniau'n planed fach ni.

Wedi'r cyfan tydi "diwydiant y gofod" ddim hefo'r record orau o fod yn daclus yn ei gweithgareddau hyd yma, ac amcangyfrifir fod yna oddeutu 900 000 o ddarnau gwastraff mwy na 1 centimedr mewn maint yn cylchdroi'n byd ar hyn o bryd.

Mae'r rhain yn eu tro mewn perygl o gael effaith andwyol ar loerennau sydd yn bodoli eisoes, a'r niferoedd newydd sydd ar fin cael eu hanfon i'r gofod, ac sydd ac a fydd yn chwarae rhan mor bwysig yn ein byd technolegol ni (ystyrier eisoes y defnydd cynyddol yng nghyfnod y "gofid").

Rydym wedi dod yn gyfarwydd ag enw Capten Tom yn ystod y pandemig (er yr ymddengys fod ei "ddefnyddioldeb" i'r sefydliad mwyach yn pylu), ond Major Tom oedd yng nghân David Bowie, "Space Oddity".

"I'm stepping through the door,
and I'm floating in a most peculiar way
And the stars look very different today.
Planet Earth is blue
And there's nothing I can do."

Gochelwn nad fel hyn y byddwn ni'n ymateb i'n byd a'n bydysawd wedi i'r argyfwng presennol yma ddod i ben.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Codi arian i Ysbyty Felindre

Llongyfarchiadau enfawr i Hari a'i dad-cu, Wayne, am godi bron i £3000 o bunnoedd ar gyfer Ysbyty Felindre er cof am fodryb Hari, Rhian, a fu'n gweithio fel cynorthwywraig yn ein hysgol. Yr her oedd i beidio siarad dros 10 diwrnod, gyda Hari hyd yn oed yn dawel dros ei ben-blwydd! Record Hari oedd 2 awr a 36 munud - tipyn o her i blentyn saith mlwydd oed!



Rhagor o sêr y sgrin

Mae plant yr ysgol wedi parhau i fod yn greadigol drwy greu fideos gwych gartref. Diolch i Geraint o Flwyddyn 6 am greu fideo i ddangos sut i goginio pwdin bara menyn, i Efa-Grug o Flwyddyn 2 am greu fideo yoga ac i nifer o blant y Meithrin am greu fideos i ddangos eu holl waith caled dros yr wythnosau diwethaf. Braf hefyd oedd gweld rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyfweld â Ferdinand Magellan, fforiwr o Bortiwgal o'r unfed ganrif ar bymtheg. Diddorol a doniol iawn! Da iawn chi!

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Diolch i'r holl ddisgyblion a drydarodd lluniau i gefnogi neges heddwch ac ewyllys da yr Urdd eleni.

Eisteddfod T

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod T eleni. Dim gwobrau y tro hwn ond da iawn i bawb a gystadlodd a diolch yn fawr i'r Urdd am gynnal trawsdoriad o gystadlaethau, gan gynnwys nifer o gystadlaethau newydd sbon a hwylus!

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Gwilym ac Eleri Huws

Mae'n syndod faint o bethau sy'n digwydd yn ardal Meisgyn yn ystod y cyfnod clo. Gan fod teuluoedd yn gaeth i'w cartrefi a'u milltir sgwâr, mae'n rhoi cyfle i wneud pethau nad oes cyfle i'w gwneud yn y 'byd normal'. Yn sicr mae'n rhoi amser i ni i gyd ddod i nabod ein cymdogion yn well.

Grŵp Cymunedol Meisgyn

Daeth aelodau'r o'r grŵp at ei gilydd ar 15 Mai i drefnu i gasglu cyfraniadau ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái ac fe gasglwyd dros 1200kg o fwyd a gyfrannwyd gan drigolion y pentref. Gan fod yr ymgyrch wedi bod mor llwyddiannus, trefnodd Kath Rodgers a Katey Edwards gasgliadau am 4 wythnos arall gyda'r man casglu yn 1 Rowan Tree Lane rhwng 9 a 12 ar foreau Gwener. Dosbarthwyd taflenni i hysbysebu'r ymgyrch a chyflwyno gwybodaeth am y math o nwyddau sydd eu hangen. Erbyn i chi dderbyn *Tafod Elái* bydd tri chasgliad wedi bod, ac ar 5 Mehefin byddant yn casglu nwyddau ymolchi a golchi dillad, yna bwydydd a nwyddau babi ar 12 Mehefin.

Casgliad i'r banc bwyd

Ffyrdd dychmygus o godi arian at elusennau

Rydym yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu elusennau ar hyn o bryd a'r diffyg cyfleoedd i godi arian. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi atal rhai rhag defnyddio'u dychymyg wrth ddod o hyd i ffyrdd anarferol a gwahanol o godi arian.

Aeth rhai aelodau o Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch ati i gwrdd â sialens 2.6, sef ymgyrch i gael pobl i gynnal digwyddiad sy'n seiliedig ar y rhif 26 a lansiwyd ar 26 Ebrill, y dyddiad pan ddylai marathon (26 milltir) Llundain fod wedi digwydd. Bu Yvonne a Sheila wrthi'n gwau 26 calon yr un, Ray yn gwau am 26 awr gan baratoi at y Ffair Nadolig, ac fe wnaeth Veronica 26 o fasgiau. Cerddodd Christine 26 gwaith o amgylch y cae yn agos at ei chartref ac fe aeth Sharon am dro 2.6 milltir i gael un o'r 26 cacennau oedd wedi eu paratoi gan Wonny. Bu Julie yn chwarae ei gitâr am 2.6 awr, Edwina'n glanhau ffenestri ei thŷ, a Kath a Liz yn garddio ac yn chwynnu. Da iawn bawb!

Yn ogystal â hyn mae dychymyg Harri Griffiths, Meisgyn, ŵyr Wayne a Jane Griffiths Llantrisant, wedi dod i sylw'r cyfryngau. Gwelwyd hanes ei 'ddistawrwydd noddedig' ar raglen newyddion ITV. Llwyddodd Harri i gadw'n ddistaw bob dydd am 10 diwrnod, hyd yn oed ar ei ben-blwydd. Roedd hyn yn dipyn o gamp i Harri sydd, fel ei dad-cu, yn siaradus iawn; a chwarae teg i Wayne, ac er mawr syndod i Jane, fe lwyddodd yntau i fod yn ddistaw gyda Harri. Mae'r arian sy'n cael ei godi (bron i £3,000 erbyn hyn) yn mynd at elusen a sefydlwyd gan Wayne a Jane er cof am eu merch Rhian fu farw yn 25 oed o ganser ceg y groth yn 2012. Erbyn hyn mae dros £500,000 wedi cael ei godi ar gyfer elusen Cronfa Blodyn Cof Rhian Griffiths yng Nghanolfan Canser Felindre.



Yng Nghaerdydd bu Twm Rhys Huw, ŵyr 10 oed Eleri a Gwilym Huws, Meisgyn, yn gwneud her 10x100 i gefnogi'r gwasanaeth iechyd lleol. Wedi ei ysbrydoli gan Capten Tom, aeth ati i wneud 10 her – 100 lap o'r lôn ar y beic; 100 naid pogo; 100 gwaith i fyny ac i lawr y grisiau; 100 keep-ups pêl-droed; 100 naid seren; 100 ymwthiad; 100 munud o dawelwch; 100 byrpi; 100 o sgipiau a 100 o sit-ups. Ar ôl bod wrthi'n brysur rhwng 10 y bore ac 8 y nos, llwyddodd i godi £1,060 – da iawn ti, Twm!

Ar y brig o ran codi arian mae Henry Edwards o Feisgyn. Rhedodd Henry, sy'n 5 oed, 2.6 milltir bob dydd gyda'i fam, Katey, am 10 diwrnod yn olynol gan orffen ar 26 Ebrill (dyddiad marathon Llundain). Mae ymgyrch Henry wedi codi dros £12,000 i elusen leol, 2 Wish Upon a Star, a sefydlwyd gan Rhian Mannings, Meisgyn. Bu Henry hefyd yn seren ar y BBC ac ITV. Fe fydd Ysgol GGG Llantrisant yn falch iawn o'i lwyddiant.

Aelod o Gangen Tonysguboriau o Ferched y Wawr yn ennill prif wobr ar gyfer dysgwyr

Llongyfarchiadau i Siân Sexton am ennill gwobr Cystadleuaeth y Dysgwyr, Lefel Uwch, Merched y Wawr am ei chyflwyniad 'Y Dyfodol'. Fel arfer, mae gwobrau cystadlaethau'r mudiad yn cael eu dyfarnu a'u cyflwyno yn yr Ŵyl Haf sy'n cael ei chynnal ym mis Mai yn Machynlleth, ond eleni cyhoeddwyd enwau'r enillwyr ar y rhaglen deledu Prynhawn Da.

Edrychwn ymlaen at glywed y cyflwyniad buddugol gan Siân yng nghyfarfod ein cangen ym mis Hydref, pan fyddwn yn dathlu diwrnod 'Shwmae'.

Parhad ar dudalen 11 >

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN
Parhad

Llwyddiant Heti
Llongyfarchiadau mawr i Heti Edge ar ennill gradd M.Ed. o Brifysgol Caergrawnt eleni. Mae ei rhieni, Sioned a Robert, Llanharan, a Gruff ei brawd yn falch iawn ohoni. Cyn-ddisgybl yn Ysgol Llanhari ydy Heti, ac mae hi ar hyn o bryd yn athrawes gerddoriaeth yn Ysgol Uwchradd Prifysgol Birmingham. Fodd bynnag, y newyddion da ydy y bydd Heti'n dychwelyd i Gymru i ddysgu ym mis Medi. Rydym i gyd yn dymuno'n dda iawn iddi hi.

Cadw'n brysur
Mae Eluned Davies-Scott yn cadw'n brysur trwy baratoi fideos – gyda chymorth Dennis, ei gŵr (sydd wedi dysgu sgiliau newydd fel dyn camera!) – o syniadau ar gyfer coginio bwydydd blasus sy'n cael eu postio ar dudalen Gweplyfr Menter Iaith Caerffili bob dydd Gwener. Dyma rai o'r bwydydd sydd wedi ymddangos ar y dudalen hyd yn hyn. Mae mwyafrif y syniadau ar gyfer datblygu ryseitiau yn seiliedig ar gynhwysion sy'n cael eu prynu gan gyflenwyr lleol, gan gynnwys siop Truffles a Gwinllan Llanerch.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Iestyn Morris, Tŷ Isaf, Meisgyn ar golli ei fodryb, Mrs Valma Jones, Y Wern, Tal-y-bont, Ceredigion yn ddiweddar. Roedd Anti Valma wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed fis Rhagfyr diwethaf.

Eisteddfod T
Llongyfarchiadau i Ifan Roberts, mab Lowri a Dafydd Roberts, Maesyrhaul, Cross Inn, Llantrisant ar ei lwyddiant yn yr eisteddfod rithiol yr wythnos ddiwethaf. Roedd Ifan yn cystadlu ar ddynwared person enwog, a'i ddewis oedd Rhys Meirion. Er mai perfformio o flaen camera yn ei gartref wnaeth Ifan, yn hytrach na throedio ar lwyfan y pafiliwn, roedd ei ddynwarediad yn argyhoeddi ac roedd yn fwy na haeddu'r trydydd safle. Mae dyfodol disglair o'i flaen fel comedïwr stand-yp!

Llongyfarchiadau i Jack Lockett o Bontyclun – disgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Llanhari – am ddod yn gyntaf ac ail yn Eisteddfod T ar S4C. Llwyddodd yn yr heriau a osodwyd gan Rhys Patchell ac Elinor Snowsill, felly bydd yn werth cadw llygad ar gampau Jack ym myd chwaraeon yn y dyfodol!

Efeilliaid
Llongyfarchiadau i Carole ac Eric Willis, Groesfaen, ar enedigaeth dwy wyres, Lili Mai a Leila Haf, i Delyth a Jamie ar ddydd olaf mis Mai.

Teyrnged i Jane Eryl Jones

Magwyd Jane Eryl yn Nhŷ Capel Pisgah (A), Carmel, Dyffryn Nantlle, yn unig blentyn i Joseph a Jennie Jones. Mynychodd ysgol gynradd Carmel a Penfforddelen (pentref rhwng Carmel a'r Groeslon). Cafodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, Arfon.

Fel merch Tŷ Capel, manteisiodd ar y cyfle i ymarfer y piano yn ogystal ag organ y capel, a daeth yn organyddes yn ifanc iawn. Yn ystod ei phlentyndod byddai'n cael pleser mawr yn cystadlu ar adrodd a chanu yn yr eisteddfodau lleol, fel unigolyn ac mewn partïon. Cafodd y fraint o gystadlu mewn parti merched ar y rhaglen radio 'Sêr y Siroedd'.

Oherwydd cyflwr iechyd ei thad, symudodd y teulu i fyw i Gaernarfon lle y daethant yn aelodau yng Nghapel Pendref (A) ac fe ddaeth Jane Eryl yn un o gyfeilyddion y capel hwnnw hefyd.
Yn 16 oed dechreuodd ar gwrs blaen-nyrsio yng Ngholeg Technegol Bangor ac aeth ymlaen wedyn i fod yn Fyfyrwraig Nyrsio yn Ysbyty C&A (Caernarfon & Anglesey), Bangor. Roedd hi wedi penderfynu dilyn galwedigaeth fel nyrs yn ifanc iawn, ac fel pob dim arall drwy ei bywyd fe weithiodd o ddifri o'r cychwyn, a daeth yn 'Fyfyrwraig Nyrsio y Flwyddyn' yn ystod y cyfnod hwn. Bu ei henw ar Restr yn cofnodi hyn yng nghyntedd yr ysbyty honno am rai blynyddoedd. Cafodd y Rhestr ei harddangos am flynyddoedd wedyn yng nghyntedd Ysbyty Gwynedd, Bangor a bellach caiff ei harddangos yn adeilad Fron Heulog, Ysgol Nyrsio Prifysgol Bangor.

Graddiodd fel Nyrs Gofrestredig (SRN) yn un ar hugain oed. Bu'n gweithio fel Nyrs Staff yn y C&A am gyfnod cyn symud fel Nyrs Staff i Ysbyty Eryri, Caernarfon ac yn fuan wedyn fel Prif Weinyddes Nyrsio. Ar ddiwedd yr 1990au fe'i penodwyd yn Uwch Nyrs (teitl a ddefnyddiwyd am 'Matron') yn y cyfnod pan oedd hi'n gyfrifol am Ysbyty Eryri a Brynseiont. Ymddeolodd o'r swydd ym mis Mehefin 2009 a symud i fyw i Meisgyn er mwyn bod yn rhan o fagwraeth Geraint. Fe'i hanrhydeddwyd gan y Frenhines gydag MBE am ei gwaith yn rheoli a datblygu gwasanaethau yn Ysbyty Eryri, yn enwedig am ofal yr henoed. Dim ond y gorau oedd yn gwneud y tro bob amser; disgwyliai yr un safon uchel gan ei staff a byddai'n ennyn edmygedd a pharch mawr gan y rhan helaeth ohonynt. Roedd hefyd yn ennyn edmygedd am ei gwaith gan reolwyr ysbytai cymunedol eraill, a chafodd ymweliad personol gan Edwina Hart pan oedd hi'n Weinidog Iechyd yn y Cynulliad.

Priodwyd y ddau ohonom yng Nghapel Pendref, Caernarfon ym mis Gorffennaf 1971 a symud i fyw i bentref Bontnewydd. Ganwyd Siân flwyddyn yn ddiweddarach. Saith mlynedd wedyn symudom i fyw i Ffrwd Cae Du, pentref uwchben Bontnewydd, a buom yno am 30 mlynedd cyn symud i Feisgyn. Roedd y teulu'n aelodau yn Capel Salem (A), Caernarfon yn ystod y cyfnod hwnnw.
Roedd bywyd Jane Eryl yn troi o gwmpas ei gwaith a'r teulu, ond câi bleser mawr o fod yn aelod o Ferched y Wawr ac o barti canu lleol. Treuliodd oriau mewn eisteddfodau lleol, a'r Urdd, gyda Siân. Eithriad fyddai iddi beidio â mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol.
Wedi symud i Feisgyn, cafodd amser i edrych ar ôl ei mam. Cafodd bleser o fynychu'r oedfaon yn Tabernacl, Efail Isaf, a mawr oedd ei diolch am wahoddiad gan Beti ac Eifiona i ymuno â chlwb coffi 'Bore Llun'. Byddai'n cael boddhad mawr o'r gyfeillach honno a hefyd o gwmnïaeth Merched y Capel. Pleser mawr arall oedd gofalu am Geraint a'i ddysgu i lefaru, canu, a pherfformio fel y byddai hi ei hun yn wneud yn ei oed.

Braint iddi oedd cael gwahoddiad i ymgymryd â bedyddiadau yn y Tabernacl – gwaith a wnaeth â graen, fel pob dim arall gydol ei bywyd. Pleser mawr iddi oedd cael cyfarfod â'r teuluoedd i ddysgu am eu cefndir ac i drafod trefn y gwasanaeth. Roedd hi hefyd yn ymddiddori yn natblygiad pob plentyn a fedyddiodd. Roedd yn ddidwyll yn cyflwyno pob un i'r Arglwydd Iesu Grist, a hyderwn ei bod hithau'n awr yn ei ofal Ef. Diolch am ei chyfraniad i'w Eglwys dros y blynyddoedd, ac am ei gofal o'i theulu, ei ffrindiau, ei chleifion a'i chydweithwyr gydol ei hoes.

Gari Wyn Jones

Glo

Dros ganrif cyn i byllau glo enwog y Rhondda gael eu hagor roedd bwrlwm y diwyiant glo yn ei anterth o gwmpas mynydd y Garth.

Ar ochr ddeheuol maes glo de Cymru mae'r gwythiennau glo yn dod i'r brig yn Llanilltud Faerdref a Phentyrch ac roedd yn hawdd i godi'r glo a'i werthu ar gyfer cynhesu tai. Cawn ddisgrifiad o'r gweithfeydd glo yng nghofnodion Edward Llwyd tua 1690. Mae'n sôn am weithfeydd glo ym mhlwyf Llantrisant yng Nghastellau, Y Glyn, Rhiw Saeson a'r Traen (Tonyrefail). Dywedodd fod nifer o weithfeydd glo ym mhlwyf Llanilltud Faerdref yn cynnwys Maes Mawr a Maes Bach ac mae adroddiadau fod y glo o Bryn y Menyn yn rhoi tân



Glofa Dyhewid

llachar ond ddim yn parhau yn hir. Felly roedd cyfnod y 17 a 18 ganrif yn gychwyn llewyrchus gyda'r glo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhesu tai, llosgi calch a datblygu'r diwydiant haearn.

Yn ardal Llanilltud Faerdref mae nifer o wythiennau yn dod i'r brig ac fe drodd Bryn y Menyn, yr ardal i'r gogledd o Neuadd y Pentref, Efail Isaf, yn fwrlwm o dyllu a chloddio. Cludwyd y glo ar gefn ceffylau ac asynnod dros y Garth i Radyr a Chaerdydd a daeth yr Efail yn rhan bwysig o wasanaeth cludiant yr ardal.

Mae Lewis Williams yn "Mallt o'r Dyffryn" yn sôn am yr arferiad yn y 1730'au o baratoi at y gaeaf oer drwy lenwi cytiau glo y ffermydd o byllau Bryn y Menyn. Roedd hefyd nifer o byllau ar y Foel, meddai. Roedd y glowyr a'r glo yn cael eu codi gan raff ac olwyn. Ar ôl gweithio'r wythïen am gwpwl o lathenni a'r awyr yn mynd yn wael, byddant yn gadael y pwll ac yn tyllu pwll newydd nepell i ffwrdd. Felly byddant yn gweithio rhan helaeth o'r glo sy'n agos i'r wyneb, heb boeni am awyru'r pwll, nes bod y nwyon yn gwneud hi'n amhosib i gloddio'n bellach yn y pwll hwnnw. Mae mapiau'r cyfnod yn dangos ardaloedd eang o'r ardal lle defnyddiwyd y ffordd yma o gloddio am lo ar raddfa fechan.

"Mae llawer un yn rofyn
Mynd i weld yr engine
Sy'n tynnu dŵr trwy bibau tin
Ar odrau Bryn y Menyn."

Yn ardal Pentyrch mae cofnodion y tirfeddianwyr yn 1615 yn dangos gwerthu dau bwll glo i Matthew, Castell y Mynach. Ac yna yn 1639 rhoddir les ar y gwythiennau glo a haearn ar ochr ddeheuol y Garth o gwmpas Craig Gwilym ac uwchben pentref Gwaelod y Garth. Yn 1760'au mae teulu Talbot o

Mynedfa Glofa'r Lan, Gwaelod y Garth, a cofeb i'r 12 laddwyd yn 1875

Hensol yn rhoi les i gloddio am lo yn Tyncoed, Craig Gwilym a Choed y Bedw. A hyd heddiw fe welir olion 'bell-pits' ger fferm Craig Gwilym a'r pyllau wedi'u trefnu mewn rhesi i ddilyn y wythïen.

Wrth i Waith Haearn Pentyrch a Melingriffith ddatblygu o'r 1750'au roedd galw pellach am lo ac fe ddatblygwyd nifer o byllau ar ochr y Garth yn cynnwys Coed y Bedw a'r Lan. Hyd heddiw mae deg mynedfa pwll i'w gweld rhwng Gwaelod y Garth a Tynycoed ac mae ochrau'r Garth yn frith o olion pyllau glo bach..

Ar ddechrau'r 19ed ganrif roedd y tirfeddianwyr am sicrhau fod y glo yn cael ei ddatblygu ar raddfa fasnachol ac fe welir rhes o byllau yn agor ar draws yr ardal o Bontyclun i Waelod y Garth.

Parhad ar dudalen 13 >

Tŷ Awyru Glofa Rhydyrhelyg adeiladwyd yn yr 1860'au



Rhai o'r glofeydd yn ardal de Taf Elái



Glofa Lanelai ger Pontyclun
(safle Ysgol y Pant yw'r caeau yn y cefndir)

Glofa y South Cambria yn Tyn y Coed
a fu'n weithredol o 1895 i 1915

Glo - Parhad o dudalen 12

Teulu'r Vaughans o Machen fu'n gyfrifol am agor pwll Dyhewid Fach yn Llanilltud Faerdref ond erbyn 1800 roedd Richard Crawshay wedi prynu'r gwaith i'w ddatblygu. Yn yr un cyfnod datblygwyd pyllau yng Ngwaun Miskin, Maes Bach a Maes Mawr.

Roedd Thomas Powell o Gasnewydd wedi datblygu glofeydd yn Sir Fynwy a Chwm Dâr ac roedd ganddo ddiddordeb yn y glo cartref a gynhyrchwyd yn ardal Llanilltud Faerdref. Agorodd Powell bedwar pwll yn yr ardal o dan yr enw Llantwit Works yn cynnwys Ystrad Berwig, Dihewydd a Tynant o 1840 ymlaen. Daeth datblygwyr eraill i'r ardal, agorwyd y rheilffordd o Lanilltud Faerdref i Drefforest yn 1863 ac roedd y cyfnod hyd at 1870'au yn llewyrchus iawn gyda pyllau mawr a bach yn agor ar draws yr ardal.

Ond er yr holl lewyrch ar y diwydiant roedd gwaith y glöwr yn galed ac mae llawer o adroddiadau o ddamweiniau difrifol ac angheuol. Yn ystod y cyfnod hyd at 1850'au roedd plant o dan 15 oed yn rhan bwysig o'r gweithlu ac yn wynebu peryglon enbyd. Ymhlith y damweiniau gwaethaf roedd 12 wedi cael eu lladd yn dilyn ffrwydrad yng nglofa y Lan, Gwaelod y Garth yn 1875. Yn 1849 lladdwyd saith o lowyr yng nglofa Llantwit am fod y caets wedi gorlwytho a disgyn 96 llath lawr i grombil y ddaear.

Oherwydd bod gymaint o ddatblygu wedi digwydd ar draws de Cymru bu gostyngiad ym mhris y glo ac fe effeithiodd hynny ar gyflogaeth yn yr ardal a bu raid i nifer o lowyr symud i'r Rhondda i weithio.

Glofa'r Gwcw ar fynydd y Garth tua 1908. Dyma ddarn o olwyn a ddefnyddiwyd i dynnu dramiau i fyny gwythien serth Rhif 1 y Rhondda.

Yn y 1880'au buddsoddwyd mewn nifer o byllau i gloddio'r gwythiennau dyfnach. Agorwyd pyllau'r Meiros, Lanelai, Glyn, y South Rhondda a'r South Cambria. Ar droad y ganrif yn 1900 roedd 300 yn gweithio yn y Meirios a 296 yn y South Rhondda ger Brynna. Roedd 171 yn gweithio yn y South Cambria yn ardal Tynycoed i'r gogledd o Creigiau ond cauwyd y pwll yn 1915. Cau fu hanes rhan fwyaf o'r pyllau yn ystod y dirwasgiad yn y 1920'au heblaw am bedwar neu bump pwll newydd a suddwyd ar droad y ganrif yn Coedely yn 1901, Llanharan yn 1922, Cwm yn 1909, Ynysmaerdy yn 1922 a Nantgarw yn 1910. Daeth gwaith yn y glofeydd hynny i ben yn 1986. Agorwyd gwaith glo brig Llanharan/ Llanilid yn y 1970'au gan gloddio 300,000 tunnell y flwyddyn tan 1997.

Y fynedfa i lofa Tyn y Coed

Pwll glo y Cwm, Beddau

Diolch i Barry Davies a'r Athro Trevor Boyns ac Ellis Davies am eu gwaith yn cofnodi hanes yr ardal. Mae gwefan welshcoalmines.co.uk hefyd yn gofnod gwerthfawr. Ac mae llu o ymchwilwyr yn parhau i dwrio i grombil y ddaear i chwilio am hen weithfeydd.

Lefel glofa ger yr hen Collier's Arms, Pentyrch.



Glofa Tor y Coed rhwng Rhiw Saeson a Cross Inn

EISTEDDFOD AMGEN

Bwriad AmGen yw sicrhau bod elfennau o'r Eisteddfod ar gael i bobl eu mwynhau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Wrth gyhoeddi'r prosiect, dywedodd Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, "Fel pawb arall, ry'n ni'n hynod siomedig nad oes modd i ni gynnal yr ŵyl yng Ngheredigion eleni. Ond roedden ni'n benderfynol na fyddai'n rhaid i bawb fynd heb ychydig o 'Steddfod am eleni.

"Byddwn yn cynnal Eisteddfod AmGen yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, pan roedd pawb wedi gobeithio bod ar y Maes yn Nhregaron, ac yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am yr ŵyl dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn falch o gael gweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn gwireddu rhywbeth a fydd o'r un anian â'r Eisteddfod, ond yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol iawn.

"Ond does dim rhaid aros tan Awst er mwyn dechrau mwynhau cynnwys o bob math sy'n ymwneud â'r Eisteddfod. Bydd AmGen yn rhedeg o leiaf un gweithgaredd y dydd, gan ddefnyddio nifer fawr o blatfformau, a chan weithio'n agos gyda'r wasg a'r cyfryngau ar draws Cymru hefyd. Byddwn yn cyhoeddi amserlen wythnosol AmGen bob dydd Gwener, gyda nifer o weithgareddau'n ymddangos ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yr Eisteddfod ac eraill yn weithgareddau ar blatfformau fel Zoom ac AM.

Atgofion o 1991

NABOD ARDAL YR EISTEDDFOD

gyda Loreen Williams a Dyfrig Morgan

POSTER CIP

Dewch am dro o gwmpas ardal Taf Elai, Bro Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yng nghwmni rhai o blant Ysgolion Cymraeg y cylch.

Plant Ysgol Evan James sydd yma ym Mharc Ynysangharad ym Mhontypridd. Maent yn sefyll o flaen cerflun Evan a James James, cyfansoddwyr ein Hanthem Genedlaethol.



Plant Ysgol Pont Siôn Norton sydd yn sefyll gerllaw yr hen bont ym Mhontypridd. Y Parchedig William Edwards oedd enw'r pensaer a adeiladodd yr hen bont hynod hon.

Dyn hynod iawn oedd y Doctor William Price. Gwisgai groen llwynog am ei ben a phan fu farw ei fab pum mis oed, a enwyd ganddo yn "Iesu Grist" aeth â'i gorff i ben mynydd gerllaw a'i losgi gan ddechrau'r arfer o gorff-losgi.
Plant Ysgol Llantrisant sydd yma wrth droed cerflun Y Doctor William Price.

Mae marchnad enwog iawn ym Mhontypridd pob Dydd Mercher a phob Dydd Sadwrn ac mae pobl o bell ac agos yn dod yno i brynu. Mae plant Ysgol y Dolau wedi prynu pob dim a oedd gan Garth yr Arth ar ei stondin.

Mae'r Bathdy Brenhinol nid nepell o Faes yr Eisteddfod. Yma y gwneir yr holl arian a ddefnyddir gennym wrth siopa. Mae plismyn yn gwarchod yr adeilad a chaiff neb fynd ar gyfyl y fynedfa; dim hyd yn oed plant Ysgol Castellau a phlant Ysgol Tonyrefail.

Dyma blant Ysgol Y Creigiau ar Gomin Pontypridd ynghanol Cerrig yr Orsedd a'r Garreg Siglo enwog. Mae hanes yn dweud y deuai'r Doctor William Price o Lantrisant yma i addoli'r haul.

Mae dwy ysgol Gymraeg y naill ochr i Fynydd y Garth, a'r ddwy ysgol wedi mabwysiadu enw'r mynydd. Dyma rai o blant Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Gwaelod y Garth gyda'u ffrind gorau Garth yr Arth ar y mynydd. Mae'n amlwg ei fod yntau'n hoffi enw'r mynydd hefyd!

Roedd trigolion pentref Nantgarw yn enwog iawn am eu dawnsio gwerin tua diwedd y ganrif ddiwethaf, ac mae Parti Dawnswyr Nantgarw a'r Ysgol leol, Heol y Celyn yn parhau â'r traddodiad gan ddiddanu cynulleidfaoedd led-led Cymru.

Meddalwedd iaith ar gael am ddim

Mae Cysgliad, pecyn meddalwedd sy'n cynnwys gwirydd iaith a gramadeg Cymraeg, yn awr ar gael i'w lwytho i lawr am ddim yn sgil partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru.

Y gobaith yw y bydd hyn yn cefnogi disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'u rhieni, yn ogystal â phobl sy'n gweithio gartref a sefydliadau bychain yn ystod y pandemig coronafeirws - a thu hwnt.

Lansiwyd y fersiwn gyntaf o'r gwirydd sillafu Cymraeg - CySill - yn 1988. Hyd yma, bu rhaid i ddefnyddwyr dalu am drwydded i ddefnyddio'r feddalwedd, sydd bellach yn cynnwys geiriaduron a gwirydd gramadeg, ar eu cyfrifiadur Windows.

Ond o heddiw ymlaen, gall unigolion, ysgolion a sefydliadau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl lwytho'r pecyn i lawr a'i ddefnyddio am ddim.

Daw hyn fel rhan o becyn o gefnogaeth i helpu plant a'u teuluoedd, a'r cyhoedd yn gyffredinol, i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gartref yn ystod yr argyfwng presennol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru fod adnoddau ychwanegol yn cael eu rhyddhau i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn ystod y pandemig coronafeirws, ac mae Cysgliad am ddim yn un ohonynt.

Meddai: "Rwy'n arbennig o falch fod Cysgliad yn awr ar gael am ddim i unigolion a sefydliadau bychain, o ganlyniad i'r bartneriaeth hon rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor.

Ychwanegodd Delyth Prys, Pennaeth yr Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor: "Roedden ni'n gwybod o adborth defnyddwyr dros y blynyddoedd fod Cysgliad yn declyn hynod werthfawr i bobl sy'n ysgrifennu a defnyddio'r Gymraeg - ac mae'n help mawr i gynyddu hyder.

"Rydyn ni'n falch iawn fod y drwydded am ddim ar gael i helpu pobl sy'n dysgu, addysgu a gweithio gartref yn ystod y cyfnod anodd hwn. Edrychwn ymlaen at weld rhagor o bobl o bob oed yn llwytho Cysgliad i lawr ac yn defnyddio'r feddalwedd, ac yn cael mwy o hyder i ddefnyddio'r iaith o wneud hynny."

Mae Anest Heulfryn Smith, sy'n 11 oed ac fel arfer yn mynychu Ysgol Gynradd Bontnewydd, wedi bod yn defnyddio Cysgliad tra'n derbyn addysg gartref. Meddai: "Dwi'n hoffi defnyddio'r geiriadur a'r thesawrws i wella fy ngeirfa a dod o hyd i ffyrdd mwy diddorol o ddisgrifio pethau pan dwi'n sgwennu."

Mae Tim Albin o Gwm-y-Glo yn rhedeg asiantaeth brandio a dylunio. "Mae'r pecyn yn ddefnyddiol iawn pan dwi'n gweithio ar brosiectau dwyieithog i gleientiaid, trwy fedru gwirio fy iaith a gramadeg wrth wneud tasgau fel datblygu cysyniadau a drafftio negeseuon e-bost."

I lwytho Cysgliad i lawr am ddim, ewch i www.Cysgliad.com

Mae Cysgliad yn rhedeg ar ddyfeisiadau Windows 7, 8 a 10. Gall defnyddwyr MacOS a Linux ddefnyddio adnoddau ar-lein sydd ar gael ar wefan Cysgliad.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570

www.menteriaith.cymru

Mae'n bleser cyhoeddi bod y Fenter yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ewch i'n gwefan ac at ein cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y diweddaraf ac er mwyn mwynhau arlwy'r amserlen yma:
https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf
https://www.facebook.com/MenterRhCT/
@MenterRhCT - trydar @Menter_RhCT – Instagram
http://www.menteriaith.cymru/ Youtube – Sianel Clwb Carco a Sianel TIM

AMSERLEN GWEITHGAREDDAU

Dydd Llun	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Sgyrsiau cymunedol
Dydd Mawrth	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Dysgu BSL
Dydd Mercher	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Rhannu gwybodaeth
Dydd Iau	10.00 yb	Her crefft
	3.00 yp	Gweithgaredd Sianel Clwb Carco
	8.00yh	Rhannu gwybodaeth
Dydd Gwener	10.00yb	Her crefft
	3.00 yp	Sianel TIM (Tím Ieuenctid Menter)
Dydd Sadwrn	3.00yp	Rhannu gwybodaeth
Nos Sul	8.00 yh	GTFM Sesiwn Sul

Y datblygiad diweddaraf yw'r Sgyrsiau cymunedol sy'n digwydd bob prynhawn Llun ar ein cyfryngau cymdeithasol. Ffilmiwyd unigolion yn mynegi barn am yr iaith Gymraeg a'i defnydd yn ystod digwyddiadau'r Fenter llynedd. Yn wythnosol byddwn yn rhyddhau cyfweliad unigol newydd ac rydym yn croesawu eich barn am y pwnc naill ai trwy adael sylw ar ein cyfryngau neu trwy ebostio einir@menteriaith.cymru Rydym eisiau clywed eich barn a'ch syniadau.

Rydym hefyd yn casglu ac yn rhannu yr holl gyfleoedd Cymraeg sydd ar gael yn y Sir ac yn genedlaethol. Gobeithio gallwn gyhoeddi mwy o gynlluniau cyffrous yn y dyfodol. Yn y cyfamser, hoffai staff a phwyllgor rheoli'r Fenter ddymuno'n dda i bob un ohonoch.

Bugail Aberdyfi a Gwesty Meisgyn

Beth, meddech chi, ydi'r cysylltiad rhwng awdur "Bugail Aberdyfi" â'r Maenordy ger cyffordd 34 yr M4, sydd bellach yn westy'r "Miskin Manor"?

Yr awdur dan sylw, Ceiriog, ysgrifennodd eiriau "Bugail Aberdyfi" a'u cyhoeddi mewn cyfrol fach o'r enw "Oriau'r Bore". Yn yr un llyfr hefyd mae "Aros mae'r mynyddau mawr" (a hyd yn oed y geiriau gwreiddiol am ben -blwydd "Lisa Fach Ben Felyn" gyrhaeddodd cyn belled â Phatagonia bell a'i recordio gan y trwbadŵr Rene Griffith).

Fyddech chi ddim yn disgwyl byddai yna gysylltiad amlwg rhwng y bardd/ orsaf feistr o'r Canolbarth gyda gŵr y plas ym Meisgyn. Fel mae ei enw barddol yn awgrymu, roedd John Ceiriog Hughes yn enedigol o Ddyffryn Ceiriog, ac ar ôl bod yn rhedeg siop tua Manceinion, mi geisiodd fyw ar farddoni. Gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, pan oedd cyfrolau eraill yn cael eu gwerthu am swllt, roedd rhai Ceiriog yn costio hanner coron. Fo oedd "best seller" Cymraeg ei gyfnod.

Roedd o'n ei dallt hi hefyd. Byddai'r cyflwyniad i'w gyfrolau'n talu teyrnged i rywun o bwys. A dyna'r cysylltiad â Meisgyn. Mae'r gyfrol "Oriau'r Bore" wedi ei chyflwyno fel hyn:

"I Goffadwriaeth y Diweddar Ddafydd Williams, Yswain, (Alaw Goch) am ei gefnogaeth wresog i Lenyddiaeth Gymreig, ei ymdrechion diflino i sefydlu yr Eisteddfod ar seiliau parhaus, ac am ei wladgarwch pur a dirodres ar bob egwyl, y cyflwynir y llyfr hwn, fel arwydd fechan o barch diffuant."

A phwy, meddech chi oedd Alaw Goch? Wel, perchennog pyllau glo yn ardal Aberdâr oedd Dafydd Williams. Yn wreiddiol o Ystradowen, fe agorodd ei bwll cyntaf yn Ynyscynon, ac yn ddiweddarach cloddiodd y "Deep Dyffryn" yn Aberpennar. Fe ydy'r "alaw" yn Nhrealaw a'r "Williams" yn Williamstown.

Ar yr ochr eisteddfodol i bethau, mi roddodd arian i gefnogi'r syniad fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y De a'r Gogledd bob yn ail. Roedd o hefyd yn dipyn o fardd ac wedi ennill ambell gadair. Mae yna gofeb "cylch glas" iddo yn y parc yn Nhrecynon. Alaw Goch, wedi iddo ddod yn ŵr cefnog, gododd blasty Meisgyn – lle mae'r gwesty erbyn hyn.

Bu'r hen Alaw farw tuag adeg cyhoeddi cyfrol Ceiriog a dwy flynedd ar ôl i'r Brifwyl fod yn Aberdâr ym 1861. Tybed ai yn y Steddfod y cyfarfu Ceiriog ag yntau? Pwy a ŵyr?

A fu'r gorsaf feistr yn aros o fewn muriau'r plasty crand ym Meisgyn? Fu Alaw Goch yn noddi'r awdur? Wyddon ni ddim. I bwy mae'r diolch am y geiriau "Bugail Aberdyfi" tybed? Ai i Gwm Cynon neu'r plasty ym Meisgyn? Un peth sy'n sicr, nid ar y diwn rydyn ni'n gyfarwydd â hi roedd Ceiriog wedi ysgrifennu'r geiriau gwreiddiol. Fe ddaeth honno, flynyddoedd lawer wedi i Alaw Goch a Cheiriog ein gadael!

Ifan Roberts

Gemau Plant

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw chwarae cwato neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: micymgudd, chwarae whic whiw, cwat a chwiw, cŵn cadno, chwiw mig, sbei, chwarae mig, licaloi, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn chwarae London? Neu efallai mai cicston, chwarae ecsi, poitsh neu sgotsh oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel catio, chware'r gath, chwarae'r gath ddwy gynffon, chwarae pren a chati, a pegi. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel chwarae donci mul, chwarae ffwdít, llam llyffant, naid y ffroga, chwarae moch duon, neidio caseg felen, neu neidio mulod. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae pêl ddu. Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH

Parc Meisgyn Ddoe a Heddiw

Unwaith y cawsom ein gorfodi i gyfyngu ein hymdrechion tila i gadw'n ystwyth i'n milltir sgwâr yn unig, yn hytrach na mentro ymhellach, daeth y rhodfa gysgodol rhwng sgwâr Meisgyn a chae criced hynod y pentref yn boblogaidd ymhlith llawer o'r trigolion o bob oed. Er mor hoff gennyf oedd y llecyn coediog hwn ar lan afon Elái cyn y cyfnod clo, rhaid cyfaddef mai teimlad o ddiflastod oedd meddwl mai dyma fyddai un o'r ychydig lwybrau cyfleus i ni ei gerdded am wythnosau, os misoedd lawer. Ond erbyn diwedd Mai, ar ôl troedio'r llwybr a cherdded o amgylch y cae criced hanner cant a mwy o weithiau yn ystod y deng wythnos diwethaf, mae'n deg dweud i'r profiad fod yn agoriad llygad.

Rhodfa Miskin Manor

Wrth gwrs, fedrai'r amseru ddim bod yn well, nid yn unig oherwydd bod y tywydd yn sych a chynnes ond gan i'r cyfnod hefyd gyd-fynd â deffroad byd natur wedi'r gaeaf. O ddechrau Ebrill ymlaen roedd rhywbeth newydd i sylwi arno bob dydd – y blagur yn araf agor ar y coed, a blodau niferus ac amrywiol yn ymwthio i'r golwg gan liwio llawr y goedwig yn wyn, melyn, glas a fioled yn eu tro. Ond nid gwledd i'r llygad yn unig a gafwyd chwaith, oherwydd am y tro cyntaf ers dros ddeugain mlynedd – pan agorwyd y rhan yma o draffordd yr M4 lai na chanllath i ffwrdd yn 1977 –fe dawelodd sŵn y traffig diddiwedd gan adael i gôr yr adar ailfeddiannu eu tiriogaeth.

Petai'r rhes urddasol o goed castanwydden a welir o boptu'r rhodfa yn gallu siarad, yna byddai ganddynt lond archifdy o gyfrinachau i'w hadrodd am yr hyn a welsant dros y cenedlaethau. Ymhlith y mwyaf dirdynnol oedd y damweiniau angheuol ddaeth i ran dau aelod o staff y Miskin Manor. Ym mis Mai 1880 cafodd Edward Williams, y coetsmon a thad i dri o blant, ei ladd pan laniodd y ceffyl roedd yn ei farchogaeth ar ei ben wrth i'r ddau gwympo i'r llawr. Un mlynedd ar bymtheg yn ddiweddarach daeth yr un dynged i ran Charles Griffiths, bwtler 26 mlwydd oed y Barnwr Gwilym Williams, pan ddisgynnodd yntau hefyd oddi ar ei geffyl wrth deithio drwy'r rhodfa i gyfeiriad y plasty.

Yr hyn sy'n rhyfeddol am y ddau ddigwyddiad yw bod Edward Williams a Charles Griffiths ill dau wedi eu lladd ar foreau Sul, y naill ar ei ffordd i swyddfa bost Llantrisant i gasglu llythyrau'r plas, a'r llall wrth ddychwelyd o'r swyddfa bost ar ôl casglu'r llythyrau. Ond gan nad oedd unrhyw dystion i'r ail ddamwain, tybed ai cyd-ddigwyddiad oedd amgylchiadau'r ddau ddigwyddiad, neu a oes yna rhyw ddirgelwch sinistr sy'n aros am dditectif amatur i'w ddatrys?

Mae mapiau diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dangos yn glir bod yr holl dai newydd a welir heddiw y tu ôl i'r eglwys yng nghanol pentref Meisgyn yn rhan o'r parc oedd yn amgylchynu Miskin Manor ar yr adeg honno, ac mai rhan o'r parc hefyd oedd y rhodfa goediog i hwyluso teithio rhwng y plasty a'r porthdy ar y sgwâr. O bori trwy dudalennau papurau lleol Cymraeg a Saesneg rhwng tua 1880 a dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae'n amlwg bod ymweld â'r plasty a'r parc yn dynfa boblogaidd iawn ymhell cyn ein dyddiau ni. Gellid rhestru rhai dwsinau o sefydliadau crefyddol a diwylliannol a brofodd o groeso a lletygarwch teulu'r Miskin Manor, yn arbennig yn ystod dyddiau'r Barnwr Gwilym Williams.

Er enghraifft, yn rhifyn 28 Mai 1885 o'r *South Wales Echo,* ceir adroddiad manwl o drip blynyddol cyntaf athrawon Ysgol Sul Capel Richmond Street, Caerdydd a hynny i barc Miskin Manor ar ddiwrnod braf o wanwyn. Wedi cyrraedd pen eu taith mewn coets oedd yn cael ei dynnu gan bedwar ceffyl a mwynhau picnic blasus, bu'r dynion yn chwarae pêl-droed a coits tra oedd y merched yn mwynhau'r siglen a osodwyd ar un o'r coed derw hynafol ar lan afon Elái, neu'n mentro dros y bompren i'r goedwig yr ochr bellaf i'r afon lle clywsant gân y gwcw, yr eos a'r fronfraith. Cyn ymadael am 7 o'r gloch, bu'r criw'n diddanu rhai o aelodau'r teulu drwy ganu nifer o emynau bywiog, ac wedi hynny yn morio canu yn ystod y daith o ddwy awr a mwy yn ôl i Gaerdydd.

Coeden dderw hynafol iawn ar ffin y cae criced. Honnir ei fod yn goeden aeddfed erbyn pasio'r Ddeddf Uno 1536.

Tra gwahanol oedd y tywydd pan gynhaliwyd Eisteddfod Meisgyn mewn pabell fawr yn y parc ganol mis Awst 1888 i godi arian i adeiladu eglwys i'r pentref. Ar waetha'r glaw trwm a ddisgynnodd yn ddi-baid drwy'r dydd, roedd yno gystadleuwyr o bob rhan o Forgannwg gyda chynulleidfa niferus iawn yn y pnawn ac yn enwedig ar gyfer cystadlaethau'r corau. Er bod gohebydd y *Cardiff Times* yn mynd i gryn hwyl wrth ddisgrifio'r olygfa yn y parc, roedd wedi ei synnu'n fawr bod yr eisteddfod yn *'. . . essentially Welsh. The posters near the pretty entrance lodge were Welsh, the mottoes were Welsh, the programme was printed in Welsh, the proceedings were carried out in Welsh, the songs were in Welsh, the composers of the pieces were Welsh, and the only English that crept in was in connection with Handel, who, as all the world knows, was not an Englishman.'* Ar wahân i'r glaw trwm a phrinder arlwy yn Saesneg, yr unig sylw beirniadol arall yn adroddiad y gohebydd oedd bod llawer o'r cystadleuwyr heb drafferthu i droi i fyny. Roedd hynny'n gwbl ddealladwy o gofio'r tywydd, ond mae'n ymddangos hefyd nad oedd y gohebydd wedi sylweddoli bod rhagbrofion wedi eu cynnal yn gynharach yn y dydd ac mai'r goreuon yn unig oedd i'w gweld ar y llwyfan!

Erbyn heddiw, prif atyniad y lle yw Parc Glyn, sef cae Clwb Criced Miskin Manor sydd ymhlith y meysydd mwyaf deniadol o ran ei leoliad yng Nghymru gyfan. Dau o feibion y Barnwr Gwilym Williams, Rhys a Justin, fu'n gyfrifol am droi cae gwair yn faes criced ar ddechrau'r 1880au, ond trwy drugaredd diogelwyd tair coeden dderw, un ohonynt yn hynafol iawn, sydd fel y gweddill ohonom yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed sŵn y bêl yn cael ei bwrw i'r ffin gan fatwyr y tîm lleol unwaith eto.

Gwilym Huws

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf
i gyrraedd erbyn 26 Mehefin
2020
Cyhoeddir y rhifyn os daw
digon o ddeunydd i law.

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Roeddwn wedi gweld y term droeon ar raglenni teledu ac mewn papurau dyddiol ers dau fis; hyn yw prif destun bron pob darllediad neu felna mae'n teimlo. Roeddwn hefyd yn gyfarwydd ag effeithiau angheuol y firws, yn enwedig ar bobl o oedran mawr. Serch hynny oll teimlais yn chwithig iawn wrth ddarllen teyrnged yn Y Times dyddiedig 5 Mai 2020 a gweld ar waelod y dudalen, 'He died of complications from Covid-19.'

Pam y teimlad hwn, gan nad oeddwn wedi cwrdd ag ef erioed? Fy unig ymwybyddiaeth ohono oedd bod mewn cynulleidfa niferus yn gwrando arno yn traethu darlith ar ei arbenigedd, Newid Hinsawdd y Blaned. Yn syth bin cefais fy nghyfareddu gan ddwy nodwedd oedd yn perthyn iddo, hynawsedd a huodledd. Roedd yn amlwg fod ei huodledd yn deillio o'i afael sicr ar ei destun a'i hynawsedd yn adlewyrchu personoliaeth dawel, gadarn gref.

Y rheswm dros neu esboniad ar fy chwithdod, rwy'n tybio, yw blinder bod yr haint wedi cymryd un o'n trysorau ni, sef cwmni gwyddonwyr disglair Cymru. Mewn gwirionedd oer doedd dim rhesymeg dros fy ymateb; wedi'r cyfan roedd yn 88 oed ac wedi mwynhau iechyd da ar hyd ei oes.

Ei enw? John Houghton. Mae teitl y Times yn cyhoeddi 'Sir John Houghton. Stubbornly optimistic Welsh atmospheric physicist whose Nobel-winning work led to the 1997 Kyoto treaty on climate change'.

Ganed ef yn Dyserth, Sir y Fflint a chafodd ei addysg gynradd mewn ysgol breifat ac uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Rhyl. Ar sail ei ddisgleirdeb deallusol aeth yn fyfyriwr i Brifysgol Rhydychen yn 16 oed, ddwy flynedd cyn yr oedran arferol. Disgleiriodd yno hefyd; yn 1958 yn 27 oed penodwyd ef yn Athro Ffiseg Atmospherig yng Ngholeg Iesu. Wedi cyfnod o ymchwil nodedig o dreiddgar mewn maes cymharol newydd yn Rhydychen a mannau eraill, fe'i hapwyntiwyd yn 1983 yn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Feteoroleg. Yn dilyn ei ymddeoliad yn 1990 apwyntiwyd Houghton yn Gadeirydd Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC0; gwaith y panel hwn a arweiniodd at y cytundeb y cyfeirir ato yn nheitl y deyrnged uchod. Arweiniodd cyhoeddi papurau'r panel at lawer o ddadlau brwd ac annymunol iawn, nid yn lleiaf gan wledydd oedd yn cynhyrchu olew ar raddfa fawr. Trwy hyn oll roedd huodledd a hynawsedd Houghton yn allweddol at gyrraedd cymod a chytundeb.

Ar hyd ei oes daliodd at ei argyhoeddiad Cristnogol. Ymddeolodd i bentref Aberdyfi. Mae ei lyfr Global Warming (5ed fersiwn 2015) yn glasur darllenadwy hwylus. Cafodd lu o anrhydeddau.

Gall Cymru fod yn falch ohono.

Gwasanaeth 'Tele-Ffrindiau' i ymladd unigrwydd ymhlith cleifion canser

Mae Gofal Canser Tenovus wedi lansio gwasanaeth newydd 'Tele-Ffrindiau', sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr, er mwyn ymladd unigrwydd ymhlith cleifion canser yn ystod argyfwng y coronavirus.

Mae nifer o oroeswyr canser wedi cofrestru i ymuno â'r rhaglen, lle fydd gwirfoddolwyr yn gwneud galwadau cyson naill drwy ffôn neu fideo i bobl y mae canser yn effeithio arnynt sy'n efallai dioddef unigrwydd yn ystod hunan-arwahanu.

Ymhlith y rheini i gynnig cymorth ydy Laura Lloyd-Morris, a chafodd ddiagnosis Hodgkin's Lymphoma ar ôl dod o hyd i lwmp ar ei gwddf pan oedd hi'n 19 mlwydd oed.

Dwedodd Laura o Gaerffili, "Fe wnaeth y driniaeth effeithio fy system imiwnedd ac roeddwn i yn un o'r miloedd o unigolion gafodd lythyr o'r Llywodraeth i hunan-arwahanu am 12 wythnos.

"Yn y dechrau, roeddwn i'n teimlo'n hynod o rwystredig bod ni allaf ymuno â'r sawl gwirfoddolwr i fynd i'r siopau neu wneud tasgau eraill ar gyfer bobl fregus.

Felly pan ofynnodd Gofal Canser Tenovus am wirfoddolwyr i fod yn Tele-Ffrindiau, wnes i neidio at y cyfle i helpu eraill oedd yn teimlo'n unig, oedd eisiau sgwrsio neu hyd yn oed rhywun i wrando. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i wneud rhywbeth werth chweil."

Mae Gofal Canser Tenovus yn gobeithio bydd y gwasanaeth yn helpu gymaint o bobl ag sy'n bosib sy'n byw â chanser, ac yn annog unrhyw un sy'n teimlo byddent yn buddio i gofrestru drwyddo'r wefan.

Dwedodd Rebecca Dabill, Rheolwraig Gwirfoddolwyr Gofal Canser Tenovus, "Rydym wedi cael ymateb gwych gan bobl yn cynnig eu hamser i gefnogi cleifion canser a'u hanwyliaid drwy alwadau cyson.

"Mae cael diagnosis canser yn amser pryderus i bobl, ac mae bod i ffwrdd o ffrindiau a theulu yn ystod hunan-arwahanu yn gallu cynyddu pryder.

"Rydym yn ymwybodol fod angen ein cefnogaeth ar gleifion canser mwy nag erioed, ac rydym yn benderfynol i helpu cymaint o bobl ag y gallwn."

Troi Cloc Canolfan Tonteg yn Las

Mae cloc canolfan Tonteg wedi troi yn las er mwyn cefnogi gwasanaeth iechyd.

Dywedodd John David, Cadeirydd Canolfan Gymunedol Tonteg

"Mae Canolfan Cymunedol Tonteg wedi cau oherwydd y Coronafirws. Mae'r pwyllgor eisiau talu teyrnged i'r GIG a gweithwyr allweddol trwy droi y cloc yn las."

Ysbryd Cymunedol yn dal yn gryf

Er gwaetha'r llifogydd ac argyfwng y Coronavirus, mae ysbryd cymunedol Pontypridd cyn gryfed ag erioed yn ôl cynghorwyr Plaid Cymru.

Dywedodd Heledd Fychan, Cynghorydd Tref Pontypridd:

"Mae'r Coronavirus wedi bod yn ergyd greulon i drigolion a busnesau Pontypridd a hynny fel roeddem yn dechrau'r broses o adferiad ar ôl y llifogydd difrodus.

"Mae'n hanfodol nad ydym yn anghofio'r rhai ddioddefodd oherwydd y llifogydd yng nghanol hyn i gyd, a bod yr addewidion a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hanrhydeddu.

Fodd bynnag, mae yna ronyn o ddaioni yng nghanol yr ansicrwydd hwn. Mae ysbryd a rhwydwaith cefnogaeth y gymuned cyn gryfed ag erioed, ac y mae, hyd yn oed mwy o werthfawrogi ym mysg trigolion a busnesau'r dref wrth iddynt ymaddasu a chynnig gwasanaethau newydd.

"Rwy'n gobeithio ar ddiwedd hyn i gyd y bydd y rhai sydd wedi darganfod y pleser o siopa'n lleol yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus i'n tref a bod y busnesau wedi profi'n ddarpariaeth dyngedfennol i ni ar adeg fel hyn."

Pryder am golli swyddi yn GE Nantgarw

Mae Plaid Cymru wedi mynegi pryder i Lywodraeth Cymru ynghylch effaith colli swyddi yng ngwaith General Electric yn Nantgarw.

Dywedodd Helen Mary Jones, Llefarydd yr Wrthblaid ar Economi, Cludiant a Mynd i'r Afael â Thlodi: "Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno cwestiwn testunol i'r Senedd yn gofyn am ddatganiad gan y Gweinidog ar y colli swyddi posib yma. Mae'r cyfnod hwn yn amser anodd i lawer o gwmnïau a hynny'n dilyn y cyhoeddiad gan Airbus yng ngogledd Cymru. Er fy mod yn croesawu penderfyniad rheolwyr General Electric i drafod gyda'r gweithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur ynghylch diswyddo gwirfoddol, heb os nac oni bai, bydd raid i Lywodraeth Cymru roi cefnogaeth sylweddol i rai o'r gweithwyr fydd yn gadael y cwmni.''

Ychwanegodd Heledd Fychan, Cynghorydd Rhondda Cynon Taf dros Dref Pontypridd: "Mae GE Aviation yn gyflogwr lleol pwysig ac mae'r newyddion yma'n achosi cryn bryder ar amser pan mae'r economi lleol yn barod dan bwysau difrifol. Rydym wedi dioddef, nid yn unig gan effaith Covid-19 ond hefyd drwy geisio goresgyn y llifogydd difrodus ddaeth i'n hardal ym mis Chwefror. Mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffyrdd i gefnogi GE a'r gweithwyr ar hyn o bryd.''

Meddai Cynghorydd ward y Rhondda Eleri Griffiths:

"Mae trigolion Ward y Rhondda wedi bod yn brysur yn cefnogi eu cymdogion yn yr ardal, a hyd yn hyn mae degau o bobl leol sydd yn gorfod hunan ynysu wedi derbyn help ymarferol gyda siopa a chasglu presgripsiynau.

"Rydw i hefyd wedi bod yn ymateb i sawl ymholiad oddi wrth fusnesau lleol gan sicrhau eu bod yn derbyn y cyngor a'r gwasanaethau sydd ar gael oddi wrth Gyngor RhCT.

"Dymunwn yn dda i'r rheiny o'r ardal sydd yn yr ysbyty yn ymladd y feirws ar hyn o bryd, a diolchwn i'r holl weithwyr yn yr ardal sydd yn parhau i weithio bob dydd yn ein hysbytai ac yn y gymuned."

Ychwanegodd Cynghorydd Danny Grehan:

"Mae dros fil o drigolion Tonyrefail wedi cofrestru ar y dudalen Facebook rydw i wedi'i greu, ac mae nifer ohonom yn cofnodi bob dydd bod cefnogaeth ar gael i'r gymuned. Mae rhywun yn postio i ddweud eu bod ar y ffordd i'r fferyllfa, neu ar y ffordd i'r siop gan gynnig achub swrne mas o'r tŷ i rywun arall. Ni'n gefn i'n gilydd.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cysylltu â fi yn holi os oedd modd i ni gynorthwyo teuluoedd bregus, ac mae'r gymuned wedi ymateb. Dw i'n trio cadw'r cymorth mor agos ag sy'n bosibl at y bobl sydd mewn angen.

Bonws arall sydd wedi dod o hyn yw bod y siopau bach lleol; y siop ffrwythau a'r cigydd e.e. wedi bod yn fwy prysur nag erioed. Efallai y bydd nifer o bobl yn parhau i'w defnyddio nhw wedi Cofid19."

Rhagor o Eisteddfod T

Hannah Batholomew, Ysgol Creigiau yn drydydd ar y Llefaru (D)

Mali, Begw a Nel yn drydydd yn yr Her Chwaraeon

Dawns Werin Bl.7-25 oed - 1af Daniel Calan Jones Adran Bro Taf

Cadwch lygad allan am weithgaredd y dydd ar Facebook a Trydar!

Facebook.com/gartholwg

@GartholwgLLC

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'

Ewyllysiau Cymraeg gan

Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas

Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

CANOLFAN DYSGU GYDOL OES
Garth Olwg